



Adroddiad Blynyddol Cynllun Henebion Cludadwy Cymru a Thrysor Cymru 2015



national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Cefnogwyd gan
Y Lloeri Genedlaethol
trwy Gronfa Dreftadaeth y Lloeri



**Portable
Antiquities
Scheme**

www.finds.org.uk

Adroddiad Blynyddol Cynllun Henebion Cludadwy Cymru a Thrysor Cymru 2015

Mae'r dreftadaeth archaeolegol gludadwy yn allweddol i'r ffordd y mae ein dealltwriaeth o bobl a lleoedd hynafol yn newid yn barhaus. Mae'n bwysig gan ei bod yn dangos i ni pwy oeddem a phwy ydym heddiw, a gall gyfrannu mewn ffordd rymus at fywyd diwylliannol ehangach y genedl. Mae'n adnodd bregus ac unigryw, ddaw i'r golwg yn aml diolch i bobl sy'n defnyddio datgelyddion metel, ond hefyd drwy ddarganfyddiadau damweiniol gan aelodau'r cyhoedd yn eu gerddi neu wrth fynd am dro. Gall y darganfyddiadau hyn borthi meddyliau chwilfrydig, cyfrannu at ein hymdeimlad o berthyn ac ysbrydoli creadigrwydd. Mae'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru yn cefnogi darganfyddwyr ac yn cynnig ffordd gadarn a phositif i unrhyw un ddysgu mwy am eu darganfyddiad a sicrhau eu bod yn cael eu cofnodi'n gywir fel bod y wybodaeth yn ychwanegu at ein dealltwriaeth gynyddol.

Mae'r adroddiad yn rhoi gwybodaeth am waith ac ymdrechion archaeolegwyr, curaduron amgueddfeydd a phartneriaid sydd wrthi o ddydd i ddydd yn cofnodi diwylliannau materol cyfoethog ac amrywiol Cymru, yn adrodd amdanynt, yn eu casglu ac yn annog y cyhoedd i ymwneud â nhw.



Ken Skates AC
Ysgrifennydd y Cabinet
dros yr Economi a'r Seilwaith



Ffeithiau Allweddol

Dyma'r prif bethau y mae'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru (PAS Cymru) wedi'u cyflawni yn 2015:

- Cofnodwyd 1479 o arteffactau archaeolegol a darnau arian bath gan PAS Cymru yn Archaeolegol Cymru
cofnodwyd 197 arall trwy Ymddiriedolaethau Archaeolegol rhanbarthol Cymru, sy'n bartneriaid i PAS Cymru. Mae'r cofnodion manwl hyn, gyda lluniau, yn sylfaen gadarn a hygyrch sy'n hwyluso gwaith ymchwil gwybodus i'r dreftadaeth sydd gennym yn gyffredin. Mae miloedd o eitemau eraill o bob rhan o Gymru, sydd heb gymaint o arwyddocâd archaeolegol ac nad oes angen cofnodion manwl amdanynt, wedi'u hadnabod trwy PAS Cymru fel rhan o'i wasanaeth ehangach i'r cyhoedd.
- Yn 2015¹, ychwanegwyd 1126 o ddarganfyddiadau o Gymru i gronfa ddata PAS sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld. Defnyddwyr datgelyddion metel a gynigiodd dros 90% ohonynt i'w cofnodi.
- Bu PAS Cymru mewn 66 o gyfarfodydd clybiau defnyddwyr datgelyddion metel yn 2015, trefniant a oedd er budd PAS Cymru a channoedd o bobl ledled Cymru. Mae cysylltiadau fel hyn yn cynnig cyfleoedd anffurfiol i bobl ddysgu yn eu cymunedau eu hunain, gan fynd â'r dreftadaeth allan o'r amgueddfeydd. Mae cysylltiadau ystyrlon fel hyn yn dal i gael eu meithrin mewn llawer o Ardaloedd Arloesi yng Nghymru, gyda chynrychiolaeth arbennig o gryf yng nghymoedd y Rhondda a Gwent, ac yn ardaloedd Abertawe a Wrecsam.
- Mae PAS Cymru'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli a lleoliadau a hyfforddiant i fyfyrwyr, gan helpu i feithrin sgiliau, rhoi profiad gwaith a hybu hyder gwirfoddolwyr.
- Mae gwaith PAS Cymru yn dal i gyfrannu at dreftadaeth Cymru a'i hyrwyddo gan hybu prif amcanion y Bil Treftadaeth yng Nghymru, trwy ddatgelu safleoedd

archaeolegol na wyddai pobl amdanynt cynt a datblygu ein dealltwriaeth o safleoedd a oedd eisoes yn hysbys. Mae gwybodaeth wedi'i chynnwys mewn Cofnodion Amgylchedd Hanesyddol a gedwir gan ein partneriaid, Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru. Mae PAS Cymru yn dal i sicrhau bod gan y cyhoedd ran ganolog i'w chwarae wrth ddarganfod y dreftadaeth ac mae'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o'n treftadaeth a chonsyrn amdani, gan feithrin gofal am dreftadaeth mewn cymunedau.

Dyma'r prif bethau a gyflawnwyd yng Nghymru yn 2015 o dan Ddeddf Trysor 1996:-

- Hysbyswyd PAS am 37 achos o Drysor yng Nghymru (sef tua 3.5% o'r cyfanswm yr hysbyswyd amdanynt trwy Gymru a Lloegr a mwy na'r 33 achos o Drysor yr hysbyswyd amdanynt yng Nghymru yn 2014). Caiff llawer o'r rhain eu caffael gan amgueddfeydd lleol ac Archaeolegol Cymru er budd y cyhoedd.
- Pobl yn defnyddio datgelyddion metel a ddaeth o hyd i'r holl eitemau o Drysor a ddarganfuwyd yng Nghymru ac yr hysbyswyd PAS amdanynt yn 2015. PAS Cymru a hysbyswyd gyntaf am y rhan fwyaf ond hysbyswyd PAS yng Lloegr gyntaf am rai.
- Paratôdd curaduron Archaeolegol Cymru 40 o adroddiadau ar gyfer crwneriaid ac fe gynhaliwyd 46 cwest Trysor yng Nghymru.
- Ymhlith yr eitemau newydd pwysig o Drysor a ddarganfuwyd roedd:
 - celc o ddarnau arian bath ac ingotau o'r canoloesoedd cynnar o Gymuned Llandwrog, Gwynedd (15.01)
 - celc o offer ac arfau o'r Oes Efydd Gynnar o Gymuned Wenfô, Bro Morgannwg (15.03)
 - celc o'r Oes Efydd Ddiweddar o Gymuned Grysmwnt, Sir Fynwy (15.07)
 - modrwy ganoloesol o arian wedi'i oreuro o Gymuned Llandyfâi, Sir Benfro (15.08)
 - bachyn gwisg ôl-ganoloesol o Gymuned Grysmwnt, Sir Fynwy (15.19)
 - modrwy aur Rufeinig gydag intaglio o Gymuned y Drenwydd a Llanllwchaearn, Powys (15.29)

Yn 2015, blwyddyn gyntaf y prosiect Hel Trysor; Hel Straeon:-

- cychwynnwyd rhaglen o gasglu darganfyddiadau o Gymru – rhai'n drysor a rhai heb fod yn drysor – ac erbyn diwedd y flwyddyn, defnyddiwyd cyfanswm o £15,281 o arian grant i gaffael 14 o eitemau/casgliadau. Roedd camau'n cael eu cymryd i gaffael 16 o eitemau/casgliadau eraill ag arian grant yn 2016.
- aethpwyd ati i gaffael darganfyddiadau o bwys, oedd yn cyfrif fel Trysor, ar gyfer Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir y Fflint, Oriel Ynys Môn ac Amgueddfa Abertawe.
- llwyddwyd i gaffael celc o ddarnau arian bath canoloesol o Gymuned Wenfô, Bro Morgannwg, ar gyfer y casgliadau cenedlaethol.
- cynhaliodd y staff dri archwiliad safle archaeolegol ar bedwar celc o'r Oes Efydd oedd

newydd eu darganfod. Yng Nghymuned Grysmwnt, Sir Fynwy, archwiliwyd arteffactau a adawyd fel yr oeddent yn y ddaear, gyda chymorth y darganfyddwyr a pherchennog y tir.

- trefnwyd i gychwyn dau Brosiect Archaeolegol Cymunedol yn 2016, gan gydweithio ag Amgueddfa Abertawe ac Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam.
- datblygwyd cynllun i aildatblygu gwefan PAS Cymru i fod yn ganolbwynt arbennig ar gyfer trysor a darganfyddiadau a gofnodir gan PAS yng Nghymru.
- symudwyd ymlaen â'r cynlluniau i benodi Swyddog Prosiect Hel Trysor; Hel Straeon yn 2016.
- cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o Fwrdd y Prosiect, yn cynnwys yr holl gyrff sy'n Bartneriaid, ac adroddwyd yn ôl yn rheolaidd i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y cynnydd a wnaed.

Y Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru (PAS Cymru)

Sefydlwyd y Cynllun Henebion Cludadwy (PAS) i gofnodi darganfyddiadau archaeolegol a wneir gan y cyhoedd ledled Cymru a Lloegr, er mwyn dysgu mwy am y gorffennol. Dyma'r unig ddull rhagweithiol o gofnodi darganfyddiadau o'r fath. Mae cronfa ddata ar-lein y Cynllun (finds.org.uk/database) ar gael i'r cyhoedd ei gweld a gall archaeolegwyr, ymchwilwyr a phobl sydd â diddordeb yn archaeoleg a hanes Cymru a Lloegr ei defnyddio.

Yng Nghymru, mae Cydlynnydd PAS Cymru yn gweithio yn Amgueddfa Cymru. Mae pedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru yn cofnodi darganfyddiadau hefyd ac mae modd hysbysu amgueddfeydd lleol am ddarganfyddiadau, er mwyn cynnig gwell gwasanaeth ledled Cymru. Mae Swyddogion Cyswllt Darganfyddiadau PAS mewn siroedd dros y ffin yn Lloegr yn cofnodi darganfyddiadau a wnaed yng Nghymru hefyd os yw darganfyddwyr yn dewis eu hysbysu nhw. Yn ogystal, mae curaduron arbenigol mewn archaeoleg a niwmismateg yn Amgueddfa Cymru yn cynnig cymorth i PAS Cymru. Mae bwrsariaethau a chynlluniau gwirfoddoli yma yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i hysbysu am ddarganfyddiadau hefyd.

Caiiff PAS Cymru ei ariannu yng Nghymru a'i reoli trwy Bwyllgor Ymgynghorol PAS Cymru, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r tri chorff ariannu sy'n bartneriaid i ni yng Nghymru (Amgueddfa Cymru, Cadw a MALD (Is-adran Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Llywodraeth Cymru)). Mae Dr Michael Lewis, Pennaeth Henebion Cludadwy a Thrysor yn yr Amgueddfa Brydeinig, yn mynychu'r cyfarfodydd hyn gan sicrhau cysondeb, cyfathrebu effeithiol a dull gweithredu strategol ar gyfer pawb, lle bo hynny'n briodol.

Sefydlwyd y Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru yn 1999 a, hyd yma, mae 62,220 o arteffactau a gofnodwyd yn y gronfa ddata ar-lein yn dod o Gymru. Mae'r cofnodion hyn yn dod yn bwysicach o hyd fel adnodd sy'n ymwneud â threftadaeth archaeolegol gludadwy Cymru.

Amcanion y PAS

Mae'r PAS yn gynllun sy'n gweithio mewn partneriaeth i gofnodi eitemau archaeolegol y mae'r cyhoedd yn eu darganfod, er mwyn i ni ddod i ddeall ein gorffennol yn well. Er mwyn gwneud hyn, mae'r PAS yn:

- hybu diddordeb y cyhoedd yn y broses o ganfod a chofnodi henebion cludadwy ac ymchwilio iddynt a sicrhau eu bod yn cael y budd mwyaf o'r broses.
- hyrwyddo arferion gorau gan ddarganfyddwyr/perchnogion tir ac archaeolegwyr/amgueddfeydd wrth ganfod, cofnodi a gwarachod darganfyddiadau a wneir gan y cyhoedd.
- gweithio mewn partneriaeth ag amgueddfeydd, ymddiriedolaethau/unedau archaeolegol ac eraill i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o gofnodi darganfyddiadau archaeolegol yn eu cyd-destun a hwyluso gwaith ymchwil iddynt.
- creu partneriaethau rhwng darganfyddwyr yr eitemau ac amgueddfeydd/archaeolegwyr er mwyn annog pobl i gymryd rhan mewn archaeoleg a hybu dealltwriaeth o'n gorffennol.
- cefnogi'r Ddeddf Trysor ac yn sicrhau rhagor o gyfleoedd i amgueddfeydd gaffael darganfyddiadau archaeolegol er budd y cyhoedd.

Deddf Trysor 1996

Mae Deddf Trysor 1996², sydd mewn grym yng Nghymru a Lloegr, yn mynnu bod pobl yn hysbysu crwner yr ardal lle gwnaed y darganfyddiad os deuant o hyd i rywbeth a allai fod yn Drysor. Yng Nghymru, mae gwaith PAS Cymru a churaduron archaeoleg a niwmismat-eg Amgueddfa Cymru yn help i sicrhau bod y Ddeddf Trysor yn llwyddo. Maent yn cynghori pobl am y darnau arian bath a'r arteffactau y maent wedi'u canfod, eu rhwymedigaethau cyfreithiol, a'r broses i'w dilyn gyda Thrysor.

Yng Nghymru, mae curaduron Amgueddfa Cymru yn rhoi cyngor arbenigol i grwneriaid trwy gyfrannu adroddiadau ysgrifenedig a gwneud argymhellion ar drysor sy'n cael ei ddarganfod yng Nghymru.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Amgueddfa Cymru ac amgueddfeydd lleol gaffael Trysor a ddarganfyddir yng Nghymru, er budd y cyhoedd. Gan ei bod yn amgueddfa genedlaethol, mae gan Amgueddfa Cymru hawl i ragbrynu trysor ar ran y genedl, yn enwedig os yw'r darganfyddiadau o arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, caiff tua hanner y 30-40 o achosion o drysor a gofnodir yng Nghymru bob blwyddyn eu caffael gan amgueddfeydd lleol sy'n casglu deunyddiau archaeolegol. Bwriedir parhau i rannu trysor a ddarganfyddir ledled Cymru fel hyn dros y blynyddoedd nesaf (ond yn y tymor hwy bydd hyn yn dibynnu ar sicrhau cyllid penodol). Os na fydd yr un amgueddfa gyhoeddus yn dymuno neu'n gallu caffael eitem o drysor, gellir ei gwrthod a'i rhoi yn ôl i'r sawl a'i darganfu.

Wrth gaffael trysor a ddarganfyddir yng Nghymru neu Loegr er budd y cyhoedd, rhoddir taliad sydd (gan amlaf) yn cael ei rannu'n gyfartal rhwng y darganfyddwr a pherchennog y tir. Gallant ddewis ildio'u hawl i gael y taliad, gan alluogi amgueddfeydd i gaffael darganfyddiadau yn rhatach neu am ddim. Telir gwerth llawn y darganfyddiad ar y farchnad, a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol (Llywodraeth y Deyrnas Unedig) ar gyngor panel annibynnol o arbenigwyr, a elwir yn Bwyllgor Prisio Trysor (TVC).

Curaduron arbenigol yn Amgueddfa Cymru sy'n gweinyddu'r broses Drysor yng Nghymru. Mae eu gwaith yn cynnwys paratoi

achosion o Drysor ar gyfer cwestau crwneriaid, darparu adroddiadau a chyngor i grwneriaid ar ddarganfyddiadau a allai fod yn Drysor, asesu gofynion darlunio, a chludo darganfyddiadau y datgenir eu bod yn Drysor i'r Amgueddfa Brydeinig er mwyn hwyluso'r broses brisio annibynnol a gynhelir gan y TVC. Mae'r Amgueddfa Brydeinig yn cydweithio ag Amgueddfa Cymru, gan weinyddu'r broses brisio a thrafod proses y taliadau am achosion o Drysor o Gymru.

Beth yw trysor?

Mae'r darganfyddiadau isod yn Drysor os cawsant eu darganfod ar ôl 24 Medi 1997, neu yn achos categori 2, os cawsant eu darganfod ar ôl 1 Ionawr 2003:

1. Unrhyw wrthrych metelaidd, ac eithrio darn arian bath, ar yr amod bod o leiaf 10% o bwysau'r metel yn fetel gwerthfawr (aur neu arian) a'i fod o leiaf 300 oed pan gaiff ei ddarganfod. Os daw'r gwrthrych o gyfnod cynhanesyddol, bydd yn Drysor os oes unrhyw ran ohono'n fetel gwerthfawr.
2. Unrhyw grŵp o ddau neu fwy o wrthrychau metelaidd, o unrhyw ddefnydd, yn dyddio o gyfnod cynhanesyddol, sy'n dod o'r un darganfyddiad (wedi'u claddu mewn cysylltiad uniongyrchol â'i gilydd, yn grŵp caeedig).
3. Dau neu fwy o ddarnau arian bath o'r un darganfyddiad ar yr amod eu bod o leiaf 300 oed pan gânt eu darganfod ac yn cynnwys 10 y cant o aur neu arian. Os oes llai na 10% o aur neu arian yn y darnau arian bath, mae'n rhaid bod o leiaf ddeg ohonynt.
4. Unrhyw wrthrych, o unrhyw ddefnydd, a ddarganfyddir yn yr un man â gwrthrych sy'n Drysor neu a fu gyda gwrthrych felly cyn hynny.
5. Unrhyw wrthrych a fuasai gynt yn Drysor Cudd ond nad yw'n perthyn i'r categorïau penodol a nodir uchod.

Os yw rhywun yn darganfod rhywbeth y mae'n credu ei fod yn Drysor, neu os nad yw'n siŵr a yw'n Drysor ai peidio, dylai gysylltu â Chy-

dllynydd PAS Cymru neu gurauron archaeoleg a niwmismateg Amgueddfa Cymru am yngor.

PAS Cymru a Thrysor yng Nghymru; hysbysu am eitemau o dreftadaeth gludadwy ledled Cymru a Lloegr a'u cofnodi

Bu Cymru'n cyfrannu fel cenedl ddatganoledig at PAS ers 1999 ac roedd yn un o'r ardaloedd peilot cynnar, cyn i'r cynllun gael ei ymestyn trwy Gymru a Lloegr i gyd. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dros 62,000 o arteffactau nad ydynt yn drysor wedi'u cyflwyno a'u cofnodi yng Nghymru ac mae tua 1,500 o ddarganfyddiadau archaeolegol arwyddocaol yn cael eu cyflwyno a'u cofnodi'n wirfoddol gan y cynllun bob blwyddyn. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae proses gyllido PAS Cymru wedi'i datganoli'n llwyr i Gymru, gyda thri phartner (Amgueddfa Cymru, Cadw a MALD) yn darparu'r cyfanswm o £75,000 y mae ei angen bob blwyddyn i ariannu'r cynllun, trwy Lywodraeth Cymru. Mae Amgueddfa Cymru yn gweinyddu Trysor o Gymru ers amser maith. Fodd bynnag, ers cyflwyno Deddf Trysor 1996, mae nifer yr achosion wedi codi o un achos bob dwy neu dair blynedd efallai i dros 30 o achosion bob blwyddyn. Mae'r dreftadaeth archaeolegol gludadwy yn adnodd diwylliannol pwysig a chynyddol yng Nghymru ar gyfer dysgu mwy am y gorffennol archaeolegol rydym yn ei rannu. Mae hunaniaeth, cysylltiadau a llwyddiannau PAS Cymru a'r gwaith o gofnodi trysor yng Nghymru yn haeddu cael mwy o sylw a chydabyddiaeth. Yn ddiweddar, llwyddwyd i sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer prosiect Hel Trysor; Hel Straeon, sef partneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, PAS Cymru a Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru (y Ffed) a bydd hyn yn diwallu'r angen am weddill cyfnod y prosiect.

Mae pawb yn dal i elwa ar rwydwaith gyffredinol PAS a'r fframwaith ar gyfer hysbysu am Drysor ledled Cymru a Lloegr. Gall darganfyddwr, perchennog tir neu aelod o'r cyhoedd sydd â diddordeb yn y maes ddisgwyl cysondeb yn y dull gweithredu a phrofiadau di-dor pa un bynnag ai yng Nghymru ynteu yn Lloegr y maen byw, yn hysbysu am ddarganfyddiad neu'n chwilio am wybodaeth. Mae cronfa ddata gyfunol PAS³ yn galluogi'r cyhoedd i weld cofnodion yr eitemau, ble bynnag y maent yn byw a chan groesi ffiniau gwleidyddol modern. Mae rhwydwaith staff PAS yn helpu ac yn cefnogi ei gilydd: gall llawer o ddarganfyddiadau a wneir yn Lloegr ac nad ydynt yn drysor gael eu hysbysu a'u cofnodi yng Nghymru, ac fel arall. Mae Swyddogion Cyswllt Darganfyddiadau sy'n gweithio yn siroedd Lloegr sy'n ffinio â Chymru yn cydweithio â darganfyddwyr a rhai clybiau defnyddwyr datgelyddion metel yng Nghymru i ychwanegu at y rhwydwaith ar gyfer hysbysu am arteffactau a'u cofnodi. Mae PAS a staff gweinyddu Trysor yn Amgueddfa Cymru a'r Amgueddfa Brydeinig yn cydweithio'n agos ac yn adeiladol o ddydd i ddydd gan sicrhau bod arbenigedd, gwybodaeth, profiad a chyfraniadau'n cael eu rhannu'n barhaus ledled Cymru a Lloegr. Mae'r cysylltiadau hyn yn hanfodol i'r canlyniadau a'r llwyddiannau arwyddocaol ac maent yn eithriadol o gost-effeithiol o ystyried bod mwy a mwy o ddarganfyddiadau arwyddocaol yn dod i'r fei bob blwyddyn.

Bwriedir defnyddio'r adroddiad newydd hwn, Adroddiad Blyneddol PAS Cymru a Thrysor Cymru, fel adnodd, ffynhonnell wybodaeth a dyfais hyrwyddo ychwanegol ar gyfer Cymru fel cenedl ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cyd-fynd â'r gofyn statudol i gyflwyno adroddiadau o Gymru a Lloegr i Weinidog Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar Drysor bob blwyddyn ond nid yw'n dyblygu'r gwaith. Mae'r Adroddiadau Blyneddol hyn a ddaw o dan y Ddeddf Trysor ynghyd ag Adroddiadau Blyneddol y Cynllun Henebion Cludadwy sydd

hefyd yn cael eu cynhyrchu gan yr Amgueddfa Brydeinig i'w gweld ar wefan PAS⁴.

PAS Cymru

Allgymorth ac Addysg

Mae meithrin perthynas gyda chymunedau o ddarganfyddwyr ledled Cymru yn dal yn un o brif amcanion PAS Cymru. Mae'r cysylltiadau gwerthfawr hyn wedi'u meithrin dros yr 16 mlynedd ddiwethaf, gan alluogi archaeolegwyr a'r cyhoedd i ddysgu am ddiwylliant materol archaeolegol sydd newydd ei ddarganfod ac ymchwilio iddo. Mae hyn wedi ychwanegu'n fawr at ein dealltwriaeth o amgylchedd ein treftadaeth ac wedi cyfrannu at y ffordd y g ofelir am ein treftadaeth gludadwy a'i gwarchod. Trwy gofnodi, mae nifer o safleoedd archaeolegol newydd wedi dod i'r golwg ac, yn bwysig, mae darganfyddwyr wedi'u gosod yng nghanol y broses, trwy gofnodi mewn ffordd gyfrifol. Trwy gofnodi hefyd, gellir sicrhau bod darganfyddwyr yn ymwneud â gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth ac yn gallu sicrhau dealltwriaeth ehangach o drefnadaeth mewn ffordd ystyrlon. Mae'r cysylltiadau hyn yn aml yn datblygu'n sgwrs ehangach am ein gorffennol ac yn sicrhau mwy o ddiddordeb yn ein hanes a mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ohono trwy werthfawrogi amrywiaeth diwylliannau a'r ffordd y maent yn newid.

Trwy barhau i ymwneud a chydweithio ag Ardaloedd Arloesi yng Nghymru gellir gwella bywydau pobl. Dyma un enghraifft dda a welwyd dros y blyneddau diwethaf – profiad Mr Phil Holt, dyn ddi-waith o'r Rhondda sy'n defnyddio datgelydd metel ac sydd wedi magu diddordeb byw mewn archaeoleg. Roedd Phil yn aelod o glwb defnyddwyr datgelyddion metel yn y Rhondda ac roedd Swyddog Cyswllt Darganfyddiadau PAS yn ymweld â'r clwb bob mis. Gyda chynghor, cefnogaeth ac anogaeth Cydlynedd PAS Cymru, aeth Phil ar gwrs sylfaen Mynediad i Archaeoleg ym Mhrifysgol

³ <https://finds.org.uk/database>

⁴ <https://finds.org.uk/publications/reports/treasure/2010, /2011, /2012 & /2013>

Caerdydd. Rhoddodd hyn y sgiliau a'r hyder yr oedd arno'u hangen i gychwyn ar gwrs gradd mewn archaeoleg yn 2015. Gyda rhagor o gefnogaeth, mae Phil wedi penderfynu ymchwilio i dirwedd gynhanesyddol Cymru fel rhan o'i radd. Bydd maes yr astudiaeth yn help i ni ddeall y dirwedd archaeolegol bwysig mewn ardal lle mae Phil a'i ffrindiau wedi darganfod arteffactau archaeolegol arwyddocaol. Mae Phil yn gallu defnyddio cofnodion casgliadau Amgueddfa Cymru i gyfrannu at ei ymchwil a'i gwella. Yn ei eiriau ei hunan:-

“Heb PAS Cymru, fyddwn i ddim wedi meddwl am y cwrs Llwybr at Radd ac ni fyddwn yn fyfyrwr yn y brifysgol heddiw.



Mr Phil Holt yn ymchwilio i ddarganfyddiadau cynhanesyddol yn Amgueddfa Cymru

Cofnodi darganfyddiadau

Gall PAS Cymru gynnig gwasanaeth cofnodi archaeolegol ac adnabod arteffactau o safon uchel iawn, gan ymateb i ymholiadau gan aelodau'r cyhoedd a chefnogi amgueddfeydd a gweithwyr proffesiynol ym maes treftadaeth, o Gymru a'r tu hwnt. Mae'r arbenigedd, y sgiliau

a'r adnoddau sydd gan Amgueddfa Cymru yn hanfodol er mwyn cynnal y safonau uchel angenrheidiol ac maent yn cyfrannu'n fawr at y cofnodion a gynhrychir.

Mae safleoedd archaeolegol newydd yn aml yn cael eu nodi a'u disgrifio trwy waith PAS Cymru, trwy fynd ati dro ar ôl tro i gofnodi arteffactau o gyfnod tebyg, o leoliad daearyddol penodol. Weithiau hefyd, gall darganfyddiadau unigol o lawer o wahanol leoedd gyfrannu at ein dealltwriaeth o dirweddau a rhanbarthau. Er enghraifft, yn 2015, daeth aelod o'r cyhoedd oedd eisoes wedi darganfod nifer o ddarnau o offer fflint o hyd i ychydig o bennau saethau fflint, o'r cyfnod Neolithig Hwyrach a'r Oes Efydd Gynnar, mewn cae wedi'i aredig yn Sain Ffagan, Caerdydd. Er syndod, darganfu hefyd ddarn bychan, bregus o grochenwaith a wnaed â llaw, a gwelwyd ei fod yn rhan o Wrn Amlosgi o'r Oes Efydd Gynnar. Gyda'i gilydd, mae'r darganfyddiadau yn dystiolaeth o dirwedd angladdol bwysig o'r Oes Efydd, sy'n ymestyn o dan nifer o gaeau, dros fwy o ardal nag y tybiwyd cynt.



Pen saeth fflint a darn o grochenwaith o'r Oes Efydd Gynnar a ganfuwyd yn Sain Ffagan, Caerdydd

Astudiaethau Achos o Arteffactau:

Oes y Cerrig – (Palaeolithig, Mesolithig a Neolithig)

Yn ystod 2015, cofnodwyd bron 500 o ddarganfyddiadau o rai o'r offer a'r arfau cynharaf gan PAS Cymru gyda chymorth arbenigwyr yn Amgueddfa Cymru. Mae'r offer hyn o gerrig a fflint yn rhoi cipolwg i ni ar beth o hanes cynharaf Cymru.



Bwyell garreg neolithig o lannau Penrhyn Gŵyr, Abertawe

Un o'r uchafbwyntiau oedd darganfod pen bwyell o garreg gaboledig (Rhif Cofnod PAS 2015.232) yn dyddio o gyfnod ffermwyr cyntaf Cymru (tua 3,500 – 2,200CC) a adawyd, yn fwrriadol neu ar ddamwain, ar lannau Penrhyn Gŵyr, Abertawe. Mae'r fwyell yn gyfan ac yn eithaf byr ac iddi gorff hirgrwn. Mae'r bôn yn bigfain ac mae'r ochrau'n ymledu'n raddol tuag at ymyl crwm y llafn. Fe'i gwnaed trwy bigo'r siâp gan ddefnyddio carreg arall ac yna'i chaboli trwy ei rhwbio dro ar ôl tro, am amser hir, â charreg graen bras, tywod a dŵr. Mae rhychau dyfnion sy'n rhedeg o'r llafn yn dal yn amlwg ar ôl hyd at 5,000 o flynyddoedd, wedi'u creu wrth hogi'r fwyell mae'n debyg. Mae llai o ôl caboli i'w weld ar y rhannau a fyddai wedi'u gorchuddio â'r carn ac felly mae wyneb y garreg yn fwy garw. Mae'n debygol y byddai

hynny wedi helpu i'w chadw'n llonydd yn y coes. Ni welwyd y nodwedd hon yn aml ar fwyell cerrig.

Yr Oes Efydd

Mae offer metel o'r Oes Efydd yn eithaf cyffredin yng Nghymru ac fe gofnodwyd nifer o ddarganfyddiadau yn 2015, yn cynnwys 20 bwyell efydd.

Ymhlith y darganfyddiadau mwyaf arwyddocaol, roedd neddyf (bwyell gam) sy'n anghyffredin iawn neu efallai'n unigryw (Rhif Cofnod PAS 2015.100). Daw'r teclyn efydd hwn o'r Oes Efydd Ganol (tua 1500 – 1300BC). Mae bron yn gyfan ond mae wedi cyrydu'n ddrwg ac mae mewn dau ddarn erbyn hyn. Mae'r ddau wyneb yn wahanol i'w gilydd, mae un yn gantelog ac yn debyg i fwyell a'r llall yn asennog ac yn debyg i gŷn. Mae'n anodd cymharu'r teclyn anghyffredin hwn â dim byd arall ac efallai bod iddo ddiben arbenigol. Efallai bod dull gosod y coes yn awgrymu bod y llafn ar ongl sgwâr i'r coes, gan awgrymu mai neddyf oedd y teclyn. Efallai bod tebygrwydd rhyngddo â 'neddyfau palstaf' diweddarach ac mae'n demtasiwn meddwl bod yr enghraifft hon yn 'neddyf gantel' a oedd yn rhagflaenu'r neddyf balstaf.



'Neddyf gantel' o'r Oes Efydd Ganol o Lantrisant, Rhondda Cynon Taf

Rhufeinig

Un o'r arteffactau difyrraf a gyflwynwyd i'w gofnodi yn 2015 oedd ffiguryn Rhufeinig o dylluan (Rhif Cofnod PAS 2015.109) a ddarganfuwyd yng nghefn gwlad Sir Gaerfyrddin. Mae'r dylluan a gastwyd yn sefyll ar ei thraed ei hun. Mae bron yn gyfan ond wedi treulio. Mae'r dylluan yn naturiolaid ac yn sefyll ar blinth is-gylchog sy'n rhan o'r ffiguryn. Mae pen hirgrwn y dylluan yn wynebu am ymlaen ac mae sieffrwn wedi'i endorri i gyfleu'r big. Celloedd crwn cilannog yw'r llygaid ac mae ynddynt enamel glas. Efallai bod gwydr gloyw yn y canol yn wreiddiol. Mae'r ôl traul ar ochrau a blaen yr aderyn yn drawiadol ac yn awgrymu bod llawer o ddefnydd wedi bod arno, fel swynogl efallai.



Ffiguryn o dylluan Rhufeinig o gefn gwlad Sir Gaerfyrddin

Cofnodwyd dau ffiguryn arall o dylluanod o Brydain yn y cyfnod Rhufeinig. Mae arddull y rhain yn wahanol ond mae ganddynt hwythau lygaid enamel. Mae tylluanod yn cael eu cysylltu â duwies doethineb y Rhufeiniaid, Minerva. Nid yw'n ymddangos mai mownt neu ddolen ymarferol oedd yr enghraifft hon ond efallai ei fod yn wrthrych crefyddol neu ddefodol oedd yn sefyll ar ei ben ei hun. Efallai bod safle defodol yn y man lle canfuwyd ef neu gerllaw.

Canoloesol

Mae nifer o ddarganfyddiadau diddorol o sawl cyfnod mewn hanes wedi'u gwneud ym



Bathodyn pererin canoloesol o Thomas Becket, wedi'i wneud o aloi copr, a ganfuwyd ym Mae Abertawe

Mae Abertawe dros y blynyddoedd diwethaf. Gobeithio y daw llawer o'r eitemau hyn i Amgueddfa Abertawe ac y cânt eu dehongli gan gymunedau lleol trwy brosiect Hel Trysor; Hel Straeon a ariannir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Mae o leiaf ddwsin o gofrodion o wahanol fathau ar gyfer pererinion canoloesol wedi'u cofnodi o Fae Abertawe dros y degawd diwethaf, gan ychwanegu'n sylweddol at y corpws o Gymru sy'n cael ei gasglu gan Adran Hanes ac Archaeoleg Amgueddfa Cymru.

Mae bathodyn arall a ganfuwyd yn 2015 yn dystiolaeth ychwanegol o bwysigrwydd pererindodau i Gaer-gaint o weddill Prydain, gan ychwanegu at ddarganfyddiadau tebyg o dde-orllewin Cymru. Mae'r bathodyn (Rhif Cofnod PAS 2015.5.1) wedi'i gastio mewn aloi copr ac mae ar ffurf penddelw o Thomas Becket yn gwisgo meitr a chroes ar ei ben a gwallt yn ymwthio allan ar y ddwy ochr. Efallai bod y pelenni sy'n addurno gwisg neu amis Becket yn cynrychioli'r gemau a'r cerrig gwerthfawr ar y greirfa siâp pen. Mae pin ar y cefn i roi'r bathodyn yn sownd.

Mae'r bathodyn yn darlunio creirfa ar ffurf pen Becket o gapel dwyreiniol Cadeirlan Caer-gaint. Er bod gwahanol fathau o fowldiau, â'r manylion arnynt yn amrywio, mae'r addurnwaith yn debyg ar y cyfan, gan

awgrymu ymdrech i bortreadu ysblander gemog creirfeydd fel hon. Gwnaed y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a ganfuwyd o aloi plwm-tun ac mae rhai o aloi copr fel hon yn anghyffredin. Yn 2010, cafwyd hyd i fathodyn tebyg, o aloi plwm-tun, yn yr un ardal â'r un a ganfuwyd yn 2015. Awgrymwyd efallai bod rhai cofroddion wedi'u taflu i'r môr wrth ddychwelyd oddi ar bererindod i ddiolch am gael glanio'n ddiogel wrth i'r pererinion agosáu at eu cartref.

Cofnodi Ystadegau ar gyfer 2015

Adnabod a chofnodi arteffactau a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd eu gweld trwy wefan PAS yw prif amcan PAS Cymru o hyd. Er mwyn gwneud y gwaith, mae angen mynychu clybiau defnyddwyr datgelyddion metel ledled Cymru yn rheolaidd a chadw mewn cysylltiad clòs â'r gymuned o ddefnyddwyr datgelyddion metel. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan mai proses wirfoddol yw hysbysu am ganfyddiadau nad ydynt yn drysor a chaniatáu iddynt gael eu hadnabod a'u cofnodi.

Mae Tabl 1 yn dangos y darganfyddiadau arwyddocaol a phwysig a gofnodwyd trwy PAS Cymru yn 2015 yn Amgueddfa Cymru. Roedd y rhain yn teilyngu cofnodion llawn ac fe grëwyd rhai ar eu cyfer. Roedd yn bwysig iawn bod yr arteffactau hyn yn cael eu cofnodi a'u ffotograffio i'r safon uchaf. Cafodd llawer o eitemau eraill eu sganio'n sydyn a'u hadnabod yn anffurfiol ar gyfer y sawl a ddaeth o hyd iddynt ond penderfynwyd nad oeddent mor arwyddocaol ac felly nad oedd angen creu cofnodion ar eu cyfer. Mae angen doethineb, arbenigedd a phrofiad i benderfynu pa eitemau y mae angen eu cofnodi.

Darnau arian bath a thocins oedd y grŵp bras mwyaf o arteffactau – dyma oedd 47.9% o'r darganfyddiadau a gofnodwyd ac roedd yn rhaid wrth arbenigedd mewn niwmismateg i'w

Darganfyddiadau yn ôl math	
Arteffactau Lithig	457
Arteffactau Metel	313
Darnau Arian Bath a Thocins	709
Cyfanswm	1479


Tabl 1 Darganfyddiadau a gofnodwyd trwy PAS Cymru yn Amgueddfa Cymru, yn ôl y math yn fras

hadnabod. Yn ogystal, roedd cyfran sylweddol o'r eitemau a gofnodwyd (30.9%) yn arteffactau lithig cynhanesyddol. Roedd angen arbenigedd a chymorth curadurol ychwanegol i gofnodi'r eitemau lithig. Arteffactau metel, ac eithriadarnau arian bath a thocins, yn dyddio o rywbryd rhwng yr Oes Gopr a'r Oes Fodern oedd y 21.2% arall o'r darganfyddiadau a gofnodwyd.

Cyfnod	
Cynhanesyddol (na ellir eu priodoli)	360
Mesolithig	68
Neolithig	26
Yr Oes Efydd	32
Yr Oes Haearn	18
Rhufeinig	369
Canoloesol Cynnar	15
Canoloesol	292
Ôl-ganoloesol	288
Modern	3

Tabl 2 Darganfyddiadau a gofnodwyd trwy PAS Cymru yn Amgueddfa Cymru, yn ôl y cyfnod

Mae dadansoddiad o'r arteffactau a gofnodwyd yn ôl eu cyfnod, fel a welir yn Nhabl 2, yn dangos mai darganfyddiadau cynhanesyddol, gyda'i gilydd, yw'r grŵp bras mwyaf, yn dyddio o rywbryd rhwng yr Oes Fesolithig a'r Oes Haearn (34% o'r cyfanswm). Yn aml, ni ellir dweud bod arteffactau lithig sy'n dyddio o rywbryd rhwng yr Oes Fesolithig a'r Oes Efydd yn dod o unrhyw un cyfnod a dyma oedd y rhan fwyaf o'r darganfyddiadau cynhanesyddol a gofnodwyd. Cofnodwyd nifer gymharol fach o ddarganfyddiadau diagnostig o bob un o'r cyfnodau Mesolithig a Neolithig, yr Oes Efydd a'r Oes Haearn.




Ffig. 1 Darganfyddiadau yn ôl y Cyfnod

Y cyfnod Rhufeinig (tuag O.C. 50-410) oedd y cyfnod unigol y daeth y nifer fwyaf o ddarnau arian bath ac arteffactau a gofnodwyd ohono (24.9% o'r darganfyddiadau). Roedd nifer dda o'r darnau arian bath ac arteffactau yn dod o'r cyfnodau canoloesol ac ôl-ganoloesol hefyd (19.7% ac 19.5% yn y drefn honno). Ni wnaed

cofnodion llawn o lawer o'r arteffactau a'r darnau arian bath ôl-ganoloesol (1530-1800) a gyflwynwyd i'w cofnodi gan fod llawer iawn ohonynt yn cael eu darganfod ac nad oes iddynt lawer o botensial ar gyfer gwaith ymchwil archaeolegol. Cafwyd nifer fechan ond arwyddocaol o ddarganfyddiadau canoloesol cynnar (1.0%). Yn achlysurol iawn y cofnodir darganfyddiadau modern (ar ôl 1800) – dim ond pan gyflwynir eitemau diddorol iawn.

Yn Ffig 2, cyflwynir manau darganfod arteffactau a gofnodwyd yn 2015 trwy PAS Cymru yn Amgueddfa Cymru yn ôl y sir neu ardal



Cymru	1076		
Lloegr	403		
Pen-y-bont ar Ogwr	108	Sir Fynwy	47
Caerffili	6	Castell-nedd Port Talbot	5
Caerdydd	8	Casnewydd	2
Sir Gaerfyrddin	52	Sir Benfro	135
Ceredigion	46	Powys	34
Conwy	14	Rhondda Cynon Taf	16
Sir Ddinbych	16	Abertawe	324
Sir y Fflint	24	Torfaen	1
Gwynedd	1	Bro Morgannwg	222
Ynys Môn	2	Wrecsam	13
	Cyfanswm		1076

Ffig. 2 Darganfyddiadau o Gymru a gofnodwyd trwy PAS Cymru yn 2015 yn Amgueddfa Cymru, yn ôl sir ac awdurdod unedol

yr awdurdod unedol. Er bod arteffactau wedi'u cofnodi ledled Cymru, mae'n amlwg bod y ffigurau'n tueddu i adlewyrchu'r ardaloedd lle mae'r trefniadau gorau ar gyfer cofnodi, lle mae Cydlynnydd PAS Cymru a'r gwirfoddolwr Steve Sell yn gallu mynd i gyfarfodydd bob mis. Felly roedd nifer fawr o ddarganfyddiadau o Abertawe (324), Pen-y-bont ar Ogwr (108) a Bro Morgannwg (222).

Daeth nifer eithaf da o'r darganfyddiadau a gofnodwyd o orllewin Cymru hefyd: 135 o Sir Benfro, 52 o Sir Gaerfyrddin a 46 o Geredigion. Mae hyn yn dangos bod yr ardaloedd hyn yn cael peth sylw hefyd. Nid yw prinder darganfyddiadau a gofnodir o ogledd-orllewin




Fig. 3 Dosbarthiad darganfyddiadau yr hysbyswyd yr awdurdodau amdanynt yn 2015

a gogledd-ddwyrain Cymru yn ddarlun cywir o'r hyn a ddarganfyddir bob blwyddyn ond mae'n symptom o brinder staff fel na ellir rhoi cymaint o sylw i'r ardaloedd hynny.

Cofnodwyd cyfanswm o 197 o arteffactau eraill gan bedair Ymddiriedolaeth Archaeolegol Cymru yn 2015 ac nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yn y ffigurau a gyflwynwyd. Mae'r rhain yn cynnwys darganfyddiadau o ardaloedd o Gymru sydd wedi'u tan-gynrychioli ond mae'n debygol nad yw'n adlewyrchiad cywir o wir nifer yr eitemau a ddarganfyddir, llawer ohonynt heb eu hysbysu i'r awdurdodau bob blwyddyn. O hyn ymlaen, bydd gwaith cofnodi Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru'n cael ei gynnwys yn y ffigurau a gyflwynir.


Yn Lloegr y darganfuwyd dros chwarter (27.2%) y darganfyddiadau a gofnodwyd trwy PAS Cymru yn 2015. Cafodd y rhain eu darganfod gan ddefnyddwyr datgelyddion metel oedd yn byw yng Nghymru, a ddarganfu'r arteffactau yn Lloegr, ond a ddewisodd hysbysu PAS Cymru. Mae hyn yn cyfateb i'r duedd dros amser ac mae'n dangos bod cynllun PAS di-dor, ar gyfer darganfyddwyr ledled Cymru a Lloegr, yn fuddiol ac yn angenrheidiol. Fel y mae arteffactau o Loegr yn cael eu cyflwyno yng Nghymru, mae arteffactau o Gymru'n aml yn cael eu cyflwyno yn Lloegr, yn enwedig trwy'r Swyddogion Cyswllt Darganfyddiadau sy'n gweithio yn y siroedd sy'n ffinio â Chymru.

Trysor yng Nghymru

Achosion o Drysor yr Hysbyswyd Amdanynt yng Nghymru 1997-2015

Ers i Ddeddf Trysor 1996 ddod i rym, mae nifer yr achosion o Drysor yr hysbysir amdanynt wedi cynyddu'n fawr, o un achos o Drysor Cudd bob dwy neu dair blynedd cyn 1997, i 30-40 achos o Drysor y flwyddyn erbyn hyn (Ffig. 4). Mae hyn tua 3.5% o'r ychydig dros 1000 o achosion o Drysor yr hysbysir amdanynt bob blwyddyn erbyn hyn ledled Cymru a Lloegr. Yng Nghymru, ers newid y diffiniad o drysor yn 2003 i gynnwys casgliadau cynhanesyddol o eitemau o fetelau cyffredin, bu cynnydd yn y nifer cyffredinol o achosion o Drysor, yn arbennig y nifer sylweddol o gelciau o'r Oes Efydd sy'n cael eu cyfrif yn drysor erbyn hyn. Mae'r cynnydd yn parhau. Mae hyn, yn rhannol, yn adlewyrchu'r ffaith fod pobl yn dal i ddefnyddio datgelyddion metel ac i ddarganfod eitemau ac, yn ogystal, maen digwydd o ganlyniad i lwyddiant PAS ledled Cymru a Lloegr i feithrin ymddiriedaeth clybiau defnyddwyr datgelyddion metel ac annog pobl i roi gwybod am Drysor y maent wedi'i ddarganfod. Ers 1997, hysbyswyd am gyfanswm o 377 achos o Drysor o Gymru (Tabl 5) ac mae hyn yn cynrychioli adnodd diwylliannol cynyddol ac unigryw ar gyfer dod i nabod ein gorffennol.

Mae amllder a dwysedd cyffredinol darganfyddiadau Trysor ledled Cymru'n dal yn gymharol isel o'u cymharu â'i maint daearyddol. Un rheswm am hyn yw nad oes llawer o bobl yn defnyddio datgelyddion metel ar diroedd mynyddig na thiroedd nad ydynt yn dir âr. Rheswm arall yw dwysedd cymharol isel poblogaethau trefol ac felly mai ychydig o glybiau ac unigolion sy'n defnyddio datgelyddion metel mewn rhannau helaeth o Gymru (er enghraifft, yn y canolbarth a'r gogledd-orllewin). Ar y llaw arall, mae nifer yr achosion o Drysor a gyflwynir mewn ardaloedd o dir âr isel yn agos at drefi mawr lle ceir mwy o bobl yn defnyddio datgelyddion metel a chlybiau defnyddwyr datgelyddion metel (fel Bro Morgannwg a Sir Fynwy) yn gymharol uchel. Mae ardaloedd o dir amaethyddol isel wedi tueddu i ddenu mwy o bobl a chyfoeth ar wahanol adegau yn y gorffennol ac felly mae mwy o Drysor wedi'i gladdu neu ei golli yno. Mae tuedd i wneud llai o ddarganfyddiadau mewn siroedd lle ceir ardaloedd trefol mawr, fel dinasoedd Abertawe, Caerdydd a Chasnewydd.



Ffig. 4 Achosion o Drysor yr Hysbyswyd amdanynt yng Nghymru, yn dilyn Deddf Trysor 1996

Yr Achosion o Drysor yr Hysbyswyd Amdanynt yn 2015

Yn 2015, hysbyswyd am 37 achos o Drysor yng Nghymru (Tabl 3). Yn 2014, am 33 o achosion yr hysbyswyd, sef cynnydd o 10.8% mewn blwyddyn. Mae hyn bron bedair gwaith yn fwy na'r 10 achos yr hysbyswyd amdanynt ym mlwyddyn lawn gyntaf y Ddeddf (1998). Yn ogystal, paratowyd 40 o adroddiadau Trysor gan guraduron Amgueddfa Cymru ar gyfer Crwneriaid Ei Mawrhydi yng Nghymru ac fe gynhaliwyd 46 o gwestau Trysor yng Nghymru yn 2015. Hefyd, bu staff Amgueddfa Cymru'n trafod ymholiadau gan y wasg a'r cyfryngau ar ddyddiau'r cwestau, pan ddatganwyd yn gyhoeddus bod achosion yn Drysor.

Yn 2015, hysbyswyd am 19 o achosion o Drysor o dde-ddwyrain Cymru, 9 achos o orllewin Cymru, 6 achos o ogledd-ddwyrain Cymru (yn cynnwys Powys) a thri achos o ogledd-orllewin Cymru. Mae'r duedd i gael mwy o achosion o'r de-ddwyrain wedi para ers peth amser (gweler Tabl 7 a Ffig. 6 isod), gyda mwy o achosion o Drysor yn cael eu cyflwyno yn Sir Fynwy a Bro Morgannwg ers blynnyddoedd. Mae'r pedwar achos o Ronda Cynon Taf a'r tri achos o Geredigion yn 2015 yn gynydd nodedig ar y tueddiadau yn yr ardaloedd hynny gynt. Mae'r chwe achos o Sir Benfro yn 2015 yn arwyddocaol, gan gadarnhau'r patrwm a welwyd o'r blaen (gweler Tabl 7 a Ffig. 5 isod) sef mai dyma'r sir yng ngorllewin Cymru lle'r hysbysir amlaf am Drysor.

Roedd dros 60% o'r achosion o Drysor (23) yr hysbyswyd amdanynt yn eitemau canoloesol neu ôl-ganoloesol, gan gadarnhau tuedd dros gyfnod hwy i ganfod llawer o eitemau o'r cyfnodau hynny (gweler Tabl 9 isod). Hysbyswyd am bedwar achos o'r cyfnod Rhufeinig a dau achos o'r cyfnod canoloesol cynnar. Roedd y ffigurau hyn yn cynnwys dau gasgliad neu gelc o ddarnau arian bath o'r cyfnod Rhufeinig, un o'r cyfnod canoloesol cynnar, dau o'r cyfnod canoloesol ac un o'r cyfnod ôl-ganoloesol. Nid darnau arian bath oedd yr eitemau neu'r grwpiau eraill.

Hysbyswyd am wyth casgliad o arteffactau o'r Oes Efydd (pob un yn gelciau o arteffactau o fetelau cyffredin) – sydd dipyn yn uwch na nifer y darganfyddiadau o'r cyfnod hwn mewn blynnyddoedd cynt (21.6% o'r holl achosion o drysor yn 2015, o'i gymharu â 10.1% o'r darganfyddiadau cyfunol o Drysor yr hysbyswyd amdanynt yng Nghymru rhwng 1997 a 2015).

Cafodd pob un o'r 37 achos o Drysor yr hysbyswyd amdanynt yn 2015 eu canfod â datgelydd metel. Er ei bod yn gyffredin i dros 90% o'r darganfyddiadau a wneir ledled Cymru a Lloegr dros gyfnod hir gael eu gwneud â datgelydd metel, mae'n anghyffredin na chafodd yr un darganfyddiad ei wneud ar hap yng Nghymru, nac yn ystod gwaith amaethyddol na gwaith cloddio archaeolegol.

Unitary Authority	Treasure Number	Period of find	Method of discovery
Bridgend Ceredigion	15.12	Bronze Age	metal detector
	15.17	Medieval	metal detector
	15.35	Medieval	metal detector
	15.36	Post-medieval	metal detector
Conwy Flintshire	15.24	Medieval	metal detector
	15.31	Post-medieval	metal detector
	15.34	Post-medieval	metal detector
Gwynedd	15.01	Early Medieval	metal detector
	15.15	Medieval	metal detector
Monmouthshire	15.05	Bronze Age	metal detector
	15.06	Bronze Age	metal detector
	15.07	Bronze Age	metal detector
	15.19	Post-medieval	metal detector
	15.22	Roman	metal detector
	15.26	Post-medieval	metal detector
Pembrokeshire	15.27	Post-medieval	metal detector
	15.33	Post-medieval	metal detector
	15.02	Roman	metal detector
	15.08	Medieval	metal detector
	15.09	Medieval	metal detector
	15.21	Post-medieval	metal detector
	15.32	Post-medieval	metal detector
	15.37	Medieval	metal detector
Powys	15.29	Roman	metal detector
	15.30	Post-medieval	metal detector
Rhondda Cynon Taf	15.04	Bronze Age	metal detector
	15.10	Bronze Age	metal detector
	15.16	Post-medieval	metal detector

Tabl 3 Achosion o Drysor yr hysbyswyd amdanynt yng Nghymru yn 2015 a'u dosbarthiad daearyddol (pob un wedi'u canfod â datgelyddion metel)



Y celc o'r canoloesoedd cynnar o Gymuned Llandwrog, Gwynedd (15.01)

Un darganfyddiad arbennig o arwyddocaol yr hysbyswyd amdano yn 2015 oedd celc Llandwrog, Gwynedd (Achos 15.01 Cymru), sy'n cynnwys 17 o ddarnau arian bath wedi'u gwneud o arian a phedwar ingot arian, a adawyd tua'r flwyddyn 1025 OC. Mae 14 o'r darnau arian bath yn dod o gyfnod y brenin Gwyddelig-Sgandinafaidd, Sihtric Anlafsson (989-1036), ac fe'u bathwyd yn Nulyn. Mae yno ddarnau o dair ceiniog Eingl-Sacsonaidd o gyfnod Cnut (1016-35), a fathwyd yng Nghaer. Mae'r celc yn ychwanegiad pwysig

at ein gwybodaeth am gylchrediad arian yng ngogledd Cymru yn yr unfed ganrif ar ddeg fel rhan o economi oedd yn defnyddio bwlw'n a darnau arian bath amrywiol eraill. Mae'r darganfyddiad hwn yn debyg i rai a wnaed yn Iwerddon a chelc Glenfaba a ddarganfuwyd ar Ynys Manaw yn 2003.

Dadansoddiad o'r darganfyddiadau Trysor yn ôl y cyfnod a'r setliad yn 2012 a 2013

Mae Tabl 4 yn dangos setliad achosion o Drysor a ddarganfuwyd yn 2012 yn ôl y cyfnod a'r math ac mae Tabl 5 yn gwneud yr un peth ar gyfer yr achosion o Drysor a ganfuwyd yn 2013. Caiff yr wybodaeth ei diweddarw wrth i'r achosion fynd ymlaen trwy wrandawriad Trysor a'r drefn brisio i'r broses gaffael (dyna pam y ceir pennawd dros dro, 'Bwriad i gaffael'). Mae llawer o achosion trysor 2014 a 2015 heb fynd trwy'r broses o hysbysu am Drysor na'r gwrandawriad eto, gan nad yw'n sicr eto beth yw eu statws na beth fydd y setliad. Felly cyflwynir data ar gyfer y blynedd oedd hyn mewn adroddiadau dilynol.

Achosion o wrthrychau	Wedi'u caffael	Wedi'u caffael trwy rodd	Bwriad i gaffael	Wedi'u gwrthod/rhoi yn ôl i'r darganfyddwr	Dim yn Drysor	Cyfanswm
Oes Efydd	2	1	1	-	-	4
Oes Haearn	-	-	-	-	-	0
Rhufeinig	1	-	-	-	-	1
Canoloesol Cynnar	1	-	-	-	-	1
Canoloesol	3	-	2	-	-	5
Ol-ganoloesol	4	-	3	-	2	9
Cyfansymiau	11	1	6	0	2	20

Achosion o ddamau arian bath	Wedi'u caffael	Wedi'u caffael trwy rodd	Bwriad i gaffael	Wedi'u gwrthod/rhoi yn ôl i'r darganfyddwr	Dim yn Drysor	Cyfanswm
Oes Haearn	-	-	-	-	-	0
Rhufeinig	-	-	-	1	-	1
Canoloesol Cynnar	-	-	-	-	-	0
Canoloesol	3	-	-	-	-	3
Ol-ganoloesol	-	-	-	1	-	1
Cyfansymiau	3	0	0	2	0	5

Tabl 4 Dadansoddiad o'r darganfyddiadau Trysor yn ôl y cyfnod a'r setliad yn 2012

Y bwriad yw bod y rhan fwyaf o'r 50 o achosion cyfunol o Drysor o Gymru yn 2012 a 2013 yn cael eu caffael gan amgueddfeydd er budd y cyhoedd, ac eithrio'r ddau achos y datganwyd nad oeddent yn drysor a'r tri achos a gafodd eu gwrthod a'u rhoi yn ôl i'r sawl a'u darganfu. Bydd y prosiect Hel Trysor; Hel Straeon, gyda chymorth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, yn helpu amgueddfeydd ledled Cymru (amgueddfeydd lleol ac Amgueddfa Cymru) i gaffael trysor dros y blynyddoedd nesaf. Ymhellach i'r dyfodol, bydd angen i amgueddfeydd geisio cyllid o ffynonellau mewnol ac allanol er mwyn parhau i gasglu fel hyn. Os nad oes arian ar gael i amgueddfeydd gaffael achosion o Drysor, cânt eu dychwelyd i'r sawl a'u darganfu. Mewn pedwar achos, mae'r darganfyddwyr a/neu berchnogion y tir wedi ildio'u hawl i daliad, gan alluogi'r amgueddfeydd i gaffael yr eitemau am lai o gost neu ddim cost i'r cyhoedd.

Mae Tablau 4 a 5 yn dangos mai gwrthrychau, fel modrwyau, tlysau, addurniadau dillad a grwpiau o gelciau cynhanesyddol yw'r rhan fwyaf (42) o achosion o Drysor yr hysbyswyd amdanynt yn 2012 a 2013, ac mai celciau a chasgliadau o ddarnau arian bath yw'r wyth achos arall.

Ceir nifer dda o ddarganfyddiadau ôl-ganoloesol a chanoloesol, cyfuniad o 22 a 15 o achosion yn y drefn honno, a cheir nifer arwyddocaol o ddarganfyddiadau o'r Oes Efydd hefyd, naw achos i gyd. Yn y blynyddoedd hyn, ychydig o ddarnau arian bath a gwrthrychau o'r Oes Haearn, y cyfnod Rhufeinig a'r cyfnod canoloesol cynnar a welwyd ac mae hyn yn cyd-fynd â thuedd dros gyfnod hirach yng Nghymru (gweler Tabl 9).

Mae Tabl 6 yn dangos yr amgueddfeydd yng Nghymru a oedd wedi caffael neu'n bwriadu caffael Trysor yr hysbyswyd amdano yn 2012 a 2013. Dros y blynyddoedd diwethaf, bu cynnydd sylweddol yng nghyfran yr achosion o Drysor a gafodd eu caffael gan amgueddfeydd lleol ledled Cymru. Mae'r duedd hon yn amlwg yn 2013, gyda hanner yr achosion o Drysor, y penderfynwyd yn derfynol ar y setliad, yn cael eu caffael gan amgueddfeydd lleol (12 o 24). Disgwyliwn y bydd y duedd hon yn parhau dros y blynyddoedd nesaf gyda chymorth y prosiect Hel Trysor; Hel Straeon, trwy grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri.

Gan fod Amgueddfa Cymru yn amgueddfa genedlaethol, mae ganddi hawl i ragbrynu

Achosion o wrthrychau	Wedi'u caffael	Wedi'u caffael trwy rodd	Bwriad i gaffael	Wedi'u gwrthod/rhoi yn ôl i'r darganfyddwr	Dim yn Drysor	Cyfanswm
Oes Efydd	2	1	2	-	-	5
Oes Haearn	-	-	-	-	-	0
Rhufeinig	-	-	-	-	-	0
Canoloesol Cynnar	1	-	-	-	-	1
Canoloesol	1	1	4	-	-	5
Ol-ganoloesol	3	1	6	-	-	10
Cyfansymiau	7	3	12	0	0	22

Achosion o ddarnau arian bath	Wedi'u caffael	Wedi'u caffael trwy rodd	Bwriad i gaffael	Wedi'u gwrthod/rhoi yn ôl i'r darganfyddwr	Dim yn Drysor	Cyfanswm
Oes Haearn	-	-	-	-	-	0
Rhufeinig	-	-	-	-	-	0
Canoloesol Cynnar	-	-	-	-	-	0
Canoloesol	-	-	1	-	-	1
Ol-ganoloesol	1	-	-	1	-	2
Cyfansymiau	1	0	1	1	0	3

Tabl 5 Dadansoddiad o ddarganfyddiadau Trysor 2013 yn ôl y cyfnod a'r setliad

Enw'r Amgueddfa	2012	2013
Amgueddfa Cymru	15	12
a) Yn casglu mewn siroedd/awdurdodau unedol lle nad oes amgueddfeydd lleol achrededig yn casglu archaeoleg (e.e. Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd)	4	6
b) Yn casglu fel Amgueddfa Genedlaethol sydd â'r hawl i gasglu ledled Cymru	11	6
Amgueddfeydd Lleol Achrededig	5	12
Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam	3	3
Amgueddfa'r Ty Weindio, Caerffili	1	1
Amgueddfa'r Old Bell, Trefaldwyn	1	0
Gwasanaeth Amgueddfeydd Sir y Fflint	0	1
Oriel Ynys Môn, Llangefni	0	1
Amgueddfa Sir Faesyfed	0	1
Amgueddfa Abertawe	0	1
Amgueddfa Pontypwl	0	1
Amgueddfa Casnewydd	0	1
Amgueddfa'r Fenni	0	1
Amgueddfa Aberdaugleddau	0	1
Setliad heb ei benderfynu	1	0
Dim yn Drysor	2	0
Wedi'i wrthod a'i roi yn ôl i'r darganfyddwyr	2	1
<i>Cyfanswm</i>	<i>25</i>	<i>25</i>

Tabl 6 Amgueddfeydd yng Nghymru sydd wedi caffael neu'n bwriadu caffael Trysor yr hysbyswyd amdano yn 2012 a 2013

Trysor a ddarganfyddir yng Nghymru ac mae'n casglu ledled Cymru, yn enwedig os yw'r darganfyddiadau o arwyddocâd cenedlaethol neu ryngwladol ac er mwyn cryfhau ardaloedd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y casgliadau cenedlaethol. Yn ogystal, mae'n caffael Trysor mewn siroedd ac ardaloedd awdurdodau unedol yng Nghymru lle nad oes amgueddfeydd lleol achrededig yn casglu eitemau archaeolegol ar hyn o bryd. Felly, o'r 25 o eitemau o Drysor a gafodd eu caffael gan Amgueddfa Cymru yn 2012 a 2013, cafodd 10 eu darganfod ym Mro Morgannwg, Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr, sy'n ardaloedd lle nad oes amgueddfeydd yn mynd ati i gasglu eitemau archaeolegol ar hyn o bryd.


Achosion o Drysor yng Nghymru yn ôl yr Ardal Ddaearyddol

Mae Tabl 7 a Ffig. 5 yn rhoi manylion yr achosion o Drysor o'r blynyddoedd 1997-2015 yng Nghymru, yn ôl sir ac ardal awdurdod unedol ar ffurfiau rhifyddol a gweledol. Cafwyd cyfanswm o 377 o achosion o Drysor yng Nghymru dros y cyfnod hwn. Ym Mro Morgannwg yr hysbyswyd am y nifer fwyaf o achosion o Drysor ar hyd y cyfnod hwn (87), a chafwyd nifer sylweddol o achosion o Drysor o Sir Fynwy (50), Sir Benfro (45) a Phowys (38) hefyd. Er nad yw siroedd Ynys Môn (27) na Wrecsam (25) yn fawr iawn, cafodd nifer gymharol uchel o eitemau o Drysor eu

darganfod a'u cyflwyno yno. Hysbyswyd am Drysor yn siroedd ac ardaloedd awdurdodau unedol Cymru i gyd heblaw Blaenau Gwent a Merthyr Tudful.

Mae Tabl 8 yn dangos amlder achosion o Drysor yng ngwahanol ranbarthau Cymru. Daw dros hanner yr achosion o Drysor yr hysbyswyd amdanynt o dde-ddwyrain Cymru (191). Wedyn, daw gogledd-ddwyrain Cymru a Phowys (85) a de-orllewin Cymru (63). Yng ngogledd-orllewin Cymru yr hysbyswyd am y nifer leiaf o ddarganfyddiadau (38).

Pan gaiff niferoedd yr achosion o Drysor eu mynegi yn ôl dwysedd am bob cilometr sgwâr, gan gymryd i ystyriaeth gyfanswm arwynebedd daearyddol y siroedd/ ardaloedd yr awdurdodau unedol (Ffig. 6), caiff y darlun ei galibradu braidd. Mae amlder cymharol darganfyddiadau Trysor am bob cilometr sgwâr ym Mro Morgannwg yn bennaf, ond hefyd, i raddau llai, yng Nghaerdydd, Casnewydd, Torfaen, Caerffili, Pen-y-bont ar Ogwr ac Abertawe, i gyd yn cynyddu, gan ychwanegu at batrwm crynodiad Trysor yn ne-ddwyrain Cymru. O'i gymharu, mae dwysedd cymharol Trysor am bob cilometr sgwâr yn is o lawer ym Mhowys, Sir Benfro, Sir




Ffig 5 Dosbarthiad darganfyddiadau Trysor yng Nghymru yn ôl ardaloedd awdurdodau unedol

Gaerfyrddin a Gwynedd, er bod nifer resymol o achosion yn dod o'r siroedd hyn hefyd. Mae dwysedd cymharol y darganfyddiadau Trysor am bob cilometr sgwâr yn Wrecsam, Sir y Fflint, Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf yn debyg i'w cyfran o ran nifer.

Blwyddyn/ Sir neu AU	97	98	99	00	01	02	03	04	05	06	07	08	09	10	11	12	13	14	15	Total
Blaenau Gwent																				0
Pen-y-bont ar Ogwr									1	1			1						1	4
Caerffili													1	1		2	1			5
Caerdydd										3							1	1		5
Sir Gaerfyrddin				2			3	1		2				1	2			1		12
Ceredigion		1				1							1						3	6
Conwy												1			2				1	4
Sir Ddinbych			1					1		1					1	1		2		7
Sir y Fflint				1			1	1			1	1		1	2	2	2	1	2	15
Gwynedd				1							1		1		1			1	2	7
Ynys Môn	2	2	2	2	2	2	5	3	2	1	2			1			1			27
Merthyr Tudful																				0
Sir Fynwy		4		3		1	4	3	1	3		3	3	3	5	3	2	4	8	50
Castell-nedd Port Talbot			1																	1
Casnewydd			1			1	3			5	2	1		1			1	1		16
Sir Benfro		2	1	2	1	1	2				1	5	3	5	2	5	5	4	6	45
Powys		1	1	1	1	1		1	1	2	4	3	4	4	5	3	2	2	2	38
Rhondda Cynon Taf								1			1								4	6
Abertawe			2	1		3	1				2		1	1			1		1	13
Torfaen															1		1	1	1	4
Bro Morgannwg	1			1	3	2	5	7	8	7	8	7	4	5	5	4	5	11	4	87
Wrecsam						1		1	1	1	2		1	2	2	5	3	4	2	25
Cyfanswm y Ffiwyddyn	3	10	9	14	7	13	24	19	14	26	24	21	20	25	28	25	25	33	37	377

Tabl 7 Achosion o Drysor yng Nghymru yn ôl ardal awdurdod unedol



Ffig 6 Darganfyddiadau Trysor yng Nghymru yn ôl ardaloedd yr awdurdodau unedol

Achosion o Drysor yng Nghymru yn ôl cyfnod

Mae Tabl 9 yn rhoi manylion yr achosion o Drysor yng Nghymru yn ôl cyfnod. Hyd yma, yng Nghymru, datganwyd bod 356 o achosion allan o'r 377 yr hysbyswyd amdanynt yn Drysor. O'r rhain, roedd 277 neu 78.51% yn wrthrychau archaeolegol, a 79 neu 21.49%

ffigurau hyn, mae casgliadau o arian bath a chelciau o arian bath yn gyffredin, 28 ohonynt yn ganoloesol ac 17 yn ôl-ganoloesol. Mae cyfran fawr o'r gwrthrychau o'r cyfnodau hyn yn fodrwyau, yn dllysau ac yn addurniadau gwisgoedd, ac mae yno hefyd fatricsau seliau, ffitiadau arfau, ac eitemau'n ymwneud â gwniadwaith, heboca a hela.

Yng Nghymru, cafwyd nifer sylweddol o achosion o Drysor o'r Oes Efydd (2,200-800 CC) hefyd, yn enwedig ers 2003 pan ddaeth casgliadau o eitemau o fetel cyffredin o'r cyfnod cynhanesyddol yn Drysor. Datganwyd bod 46 o'r achosion hyn yn Drysor, sef 12.92% o'r cyfanswm. Celciau o offer ac arfau efydd yw'r rhan fwyaf o'r rhain, ac mae nifer lai o gelciau sy'n cynnwys gemwaith aur ac arteffactau aur unigol, sy'n cyfrif ar eu pen eu hunain am eu bod yn eitemau o fetel gwerthfawr. Nifer gymharol fach o'r achosion a gafodd eu datgan yn Drysor sy'n dod o'r cyfnod Rhufeinig (OC 50-410) – 40 achos neu 11.24% – a'r cyfnod canoloesol cynnar (OC tua 410-1070au) – 30 achos neu 8.43%. Celciau a chasgliadau o ddarnau arian bath yw'r rhan fwyaf o'r achosion Rhufeinig (27 achos), gyda'r gwrthrychau'n cynnwys

Rhan o Gymru	Nifer	Canran
Gogledd-orllewin (Môn, Gwynedd a Chonwy)	38	10.08%
Gogledd-ddwyrain (Sir y Fflint, Sir Ddinbych, Wrecsam a Phowys)	85	22.55%
De-orllewin (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, Ceredigion)	63	16.71%
De-ddwyrain	191	50.66
Cyfanswm	377	100.00%

Tabl 8: Amllder achosion o Drysor yng ngwahanol ranbarthau Cymru, 1997-2015

yn gelciau a chasgliadau o ddarnau arian bath. Y cyfnodau a gynrychiolir amlaf yw'r cyfnod canoloesol (OC 1070au-1500), gyda chyfuniad o 124 o achosion o wrthrychau a darnau arian (34.83%), ac yn dynn wrth ei sodlau, y cyfnod ôl-ganoloesol cynnar (OC 1500-1715) gyda chyfuniad o 111 o achosion (31.18%). Mae'r rhain, gyda'i gilydd, yn cyfrif am bron ddwy ran o dair o gyfanswm yr achosion y datganwyd eu bod yn Drysor. O fewn y

modrwyau, gemwaith ac eitemau ar gyfer gwisgoedd. Gwrthrychau'n cynnwys pennau strapiau, gwaith arian wedi'i dorri a'i blygu, ingotau a mowntiau addurnol yw'r rhan fwyaf o'r darganfyddiadau o'r cyfnod canoloesol cynnar (23 achos). O'r Oes Haearn y daw'r nifer leiaf o eitemau yng Nghymru: ni hysbyswyd am yr un casgliad o ddarnau arian bath a dim ond pum achos o wrthrychau y datganwyd eu bod yn Drysor, sef 1.40% o'r

achosion. Mae'r darganfyddiadau hyn yn cynnwys grŵp claddu, celc o lestri, ingot aur a chasgliad o ffitiadau cerbydau.

O gymharu ffigurau Cymru â'r ffigurau a gyhoeddwyd ar gyfer Trysor ledled Cymru a Lloegr yn 2010, 2011 a 2012 yn Adroddiadau Blyneddol⁵ y Ddeddf Trysor o flwyddyn i flwyddyn, gellir gwneud rhai sylwadau cychwynnol am y sefyllfa yng Nghymru. Yng Nghymru, gwrthrychau oedd 78.51% o'r achosion a darnau arian bath oedd 21.49%. Ar y llaw arall, yn ôl y data cyfunol ar gyfer Cymru a Lloegr, gwrthrychau oedd 83-86% o'r achosion a darnau arian bath oedd yr 14-17% arall, sy'n awgrymu bod y gyfran o wrthrychau o'i chymharu ag arian bath ychydig yn uwch yn Lloegr.

Yn y data ar gyfer Cymru a Lloegr, fel yng Nghymru yn unig, achosion canoloesol ac ôl-ganoloesol gyda'i gilydd oedd tua dwy ran o

dair o gyfanswm yr achosion a ddatganwyd yn Drysor. Fodd bynnag, achosion ôl-ganoloesol yw'r amlaf yng Nghymru a Lloegr gyda'i gilydd (rhwng 34 a 37%), ac yna achosion canoloesol (rhwng 27 a 31%), ond yng Nghymru daw cyfran uwch o'r cyfnod canoloesol (34.83% o'r achosion o Drysor). Yng Nghymru, mae'r ffigurau ar gyfer achosion o wrthrychau Rhufeinig (3.65%) a chanoloesol cynnar (6.46%), gryn dipyn yn is na'r data ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010-2012, sef Rhufeinig (6.5-9.5%), a chanoloesol cynnar (10.5-12.5%).

Fodd bynnag, mae amllder casgliadau a chelciau arian bath yng Nghymru yn debyg o ran cyfran i'r data ar gyfer Cymru a Lloegr, sef 5-8% ar gyfer rhai Rhufeinig ac 1-2% ar gyfer rhai canoloesol cynnar.

Yng Nghymru, mae cyfrannau'r casgliadau a'r celciau arian bath o'r cyfnodau canoloesol



Rhan o'r gelc o ddarnau arian bath Rhufeinig o Drefaldwyn, Powys (Achos 11.11- Cymru) yn cynnwys 4,850 o ddarnau.

(7.87%) ac ôl-ganoloesol (4.78%) gryn dipyn yn uwch na'r hyn a welir yn y data ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010-2012, sef 3-4%, a 2-3% yn y drefn honno. Mae rhai enghreifftiau o gasgliadau a chelciau arian bath o'r Oes Haearn ond dim ond rhwng 1 a 2.5% o gyfanswm yr achosion o Drysor yn nata Cymru a Lloegr yw'r rhain. Mae eu habsenoldeb o Gymru'n adlewyrchu'r ffaith nad oedd cymdeithasau neu lwythau o bobl yr Oes Haearn yn bathu darnau arian yn y rhannau hyn o orllewin Prydain.

Cyfran fechan iawn o gyfanswm yr achosion o Drysor yn nata Cymru a Lloegr ar gyfer

2010-2012 oedd yn wrthrychau o'r Oes Haearn, sef 0.4-1.2%, sy'n eithaf tebyg i'r gyfran gyfatebol o 1.40% yn nata Cymru. Mae gwahaniaeth mawr i'w weld yn amllder yr achosion o Drysor o'r Oes Efydd rhwng y ddwy set o ddata. Yng Nghymru, mae 12.92% o gyfanswm yr achosion a ddatganwyd yn Drysor yn dod o'r cyfnod hwn ond, yn y data ar gyfer Cymru a Lloegr yn 2010-2012, 4-6% yw'r ganran. Ymddengys bod llawer o Drysor o'r Oes Efydd wedi'i ddarganfod yng Nghymru – rhwng dwy a thair gwaith y ganran yng Nghymru a Lloegr i gyd.

Blwyddyn / Cyfnod	97	98	99	00	01	02	03	04	05	06	07	08	09	10	11	12	13	14	15	Total
GWRTHRYCHAU																				
Yr Oes Efydd	0	0	1	0	0	3	1	2	1	1	2	4	3	2	5	4	5	4	8	46
Yr Oes Haearn	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	2	1	1	0	0	0	0	0	0	5
Rhufeinig	1	0	0	0	0	0	1	3	0	0	0	2	1	2	0	1	0	0	2	13
Canoloesol Cynnar	1	1	1	2	0	2	1	4	0	2	2	0	0	2	0	1	1	2	1	23
Canoloesol	0	4	2	4	1	2	12	4	2	7	6	6	4	5	4	5	6	15	7	96
Ôl-ganoloesol	0	2	0	2	1	0	5	5	5	3	6	5	5	7	13	7	10	5	13	94
Dim yn drysor	0	0	1	1	2	1	2	1	1	2	2	0	1	3	0	2	0	0	0	19
Cyfanswm	2	7	5	9	4	8	22	19	10	15	20	18	15	21	22	20	22	26	31	296
ARIAN BATH																				
Yr Oes Haearn	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0
Rhufeinig	0	2	2	3	2	0	1	0	0	7	0	2	1	0	2	1	0	2	2	27
Canoloesol Cynnar	1	1	0	0	1	1	1	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	7
Canoloesol	0	0	1	1	0	3	0	0	3	3	3	1	0	2	2	3	1	3	2	28
Ôl-ganoloesol	0	0	1	1	0	0	0	0	0	1	1	0	4	2	1	1	2	2	1	17
Dim yn drysor	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	0	0	0	0	1	0	0	0	0	2
Cyfanswm	1	3	4	5	3	5	2	0	4	11	4	3	5	4	6	5	3	7	6	81
Cyfanswm y blynyddoedd cyfunol	3	10	9	14	7	13	24	19	14	26	24	21	20	25	28	25	25	33	37	377

Tabl 9: Achosion o Drysor yn ôl y cyfnod, 1997-2015

Prosiect *Hel Trysor; Hel Straeon*

Mae *Hel Trysor; Hel Straeon* yn bartneriaeth rhwng Amgueddfa Cymru, Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru (Y Ffed) a'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru (PAS Cymru), sy'n hyrwyddo treftadaeth archaeolegol gludadwy Cymru trwy gaffael eitemau y mae'r cyhoedd wedi'u darganfod. Cafodd y prosiect £349,000 o arian grant o Gronfa Dreftadaeth y Loteri ym mis Hydref 2014 trwy'r rhaglen Collecting Cultures ac mae'n rhedeg am bum mlynedd (Ionawr 2015 – Rhagfyr 2019).

Trosolwg a Negeseuon y Prosiect

Bydd y Prosiect yn:-

- **ariannu** costau caffael arteffactau ar gyfer casgliadau amgueddfeydd cenedlaethol a lleol.
- **dod** â chlybiau defnyddwyr datgelyddion metel, amgueddfeydd lleol a chymunedau ynghyd.
- **galluogi** cymunedau i ymwneud â thystiolaeth o'u gorffennol. Bydd yn cyfrannu at waith amgueddfeydd a'u casgliadau trwy:-

Cryfhau ymdeimlad cymunedol a diwylliannol

- Trwy gynnig cyfleoedd am hyfforddiant a dwyn clybiau defnyddwyr datgelyddion metel, amgueddfeydd lleol a chymunedau ynghyd o gwmpas darganfyddiadau newydd a'r straeon y maent yn eu datgelu.
- Trwy gynnig hyfforddeiaethau mewn newyddiaduraeth gymunedol i greu ac annog cynnwys ar gyfer y we.
- Trwy gefnogi Prosiectau Cymunedol a ysbrydolir gan ddarganfyddiadau pwysig ym maes treftadaeth gludadwy.
- Trwy godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r prosiect trwy sylw yn y cyfryngau a gwaith hyrwyddo.

Grymuso pobl trwy addysgu, hybu cyfranogiad ac ysbrydoli

Trwy ailddatblygu gwefan PAS Cymru i fod yn ganolbwynt ar gyfer dathlu darganfyddiadau yng Nghymru – trysor neu beidio:

- Trwy gaffael trysor ac arteffactau a gofnodir gan PAS ar gyfer amgueddfeydd a, thrwy hynny, annog diwylliant hirdymor o gasglu.
- Trwy alluogi pobl o bob oed i ymwneud â chasgliadau trwy brosiectau archaeolegol cymunedol.
- Trwy hyrwyddo'r syniad o Gasgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar ac annog darganfyddwyr i ystyried amgueddfeydd yn lleoedd addas i gadw'r darganfyddiadau yn y dyfodol.
- Trwy rannu negeseuon cadarnhaol am dreftadaeth gludadwy ac archaeoleg â rhanddeiliaid.

Gwaith a ariannir

- Mae cronfa (£180,000) ar gael dros bedair blynedd i dalu costau caffael darganfyddiadau, boed y rheiny'n drysor ai peidio, ar gyfer amgueddfeydd lleol achrededig ledled Cymru ac Amgueddfa Cymru.
- Gyda'r prosiect, gellir cynnal rhaglen dair blynedd o chwe Phrosiect Archaeoleg Cymunedol (2016-18), gan gydweithio ag amgueddfeydd lleol, clybiau defnyddwyr datgelyddion metel, cymunedau lleol a chynulleidfaoedd targed (£45,000). Bydd pob prosiect yn ymateb i ddarganfyddiadau pwysig ym maes treftadaeth gludadwy yn eu hardaloedd ac yn cyflwyno straeon amrywiol mewn amgueddfeydd ac ar lein.
- Bwriedir creu rhwydweithiau casglu strategol a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant, rhannu sgiliau a gwirfoddoli (£30,000). Yn ogystal, caiff gwefan PAS Cymru ei datblygu'n ganolbwynt arbennig ar gyfer trysor a darganfyddiadau a gofnodir gan PAS yng Nghymru (£14,000). Bydd cyllid ar gyfer bwrsariaethau i fyfyrwyr newyddiaduraeth / y cyfryngau (£20,000) i annog deialog ynghylch treftadaeth gludadwy.

- Bydd cyllid ychwanegol (£87,000) yn talu costau cyflogi Swyddog Prosiect rhan-amser dros dair blynedd, i gefnogi gwaith y prosiect.

Cyllid cyfatebol a chyfraniadau mewn ffyrdd heblaw arian

- Er mwyn sicrhau cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mae Amgueddfa Cymru, y partner arweiniol, wedi addo cyllid cyfunol o £40,000 i'r prosiect. Mae cyfraniadau blynyddol o £10,000 wedi'u haddo yn ystod y blynyddoedd ariannol rhwng 2015-16 a 2018-19 gan ddefnyddio grantiau i gaffael sbesimenau.
- Mae costau staffio ar ffurf amser wedi'u cyfrannu gan Amgueddfa Cymru a PAS Cymru, sef gwerth cyfunol o £106,000 dros bum mlynedd, i dalu am gyfraniad y ddau Reolwr Prosiect.
- Gwnaed cyfraniad ychwanegol o amser staff gwerth £20,000 gan aelodau Bwrdd y Prosiect (sy'n cynrychioli Amgueddfa Cymru, PAS Cymru a'r Ffed) gyda chyfraniad gan aelodau eraill o staff Amgueddfa Cymru.
- Bydd gwirfoddolwyr yn cyfrannu eu hamser i'r prosiect a bydd hynny'n werth o leiaf £15,000 yn ychwanegol dros bum mlynedd.
- Mae'r cyfraniadau ychwanegol hyn at y prosiect yn codi cyfanswm cyllideb y prosiect i £530,000 dros bum mlynedd.

Adroddiad ar weithgareddau prosiect *Hel Trysor; Hel Straeon* yn ystod 2015

Yn ystod blwyddyn gyntaf prosiect *Hel Trysor; Hel Straeon*, roedd y gwaith yn canolbwyntio ar gynllunio ar gyfer datblygu a chyflenwi gwaith craidd y prosiect; paratoi a dechrau casglu darganfyddiadau, boed yn drysor ai peidio, ar gyfer amgueddfeydd lleol a'r Amgueddfa Genedlaethol, gan ddefnyddio grantiau; a datblygu syniadau a dulliau gweithredu'r ddau Brosiect Archaeoleg Cymunedol cyntaf gyda'n partneriaid mewn amgueddfeydd lleol.

Sefydlwyd Bwrdd Prosiect a chyfarfu bedair

gwaith yn ystod y flwyddyn, gan benderfynu ar gyfeiriad y prosiect a chynghori'r ddau Reolwr Prosiect ar ddull gweithredu a blaenoriaethau'r prosiect. Mae pob un o dri phartner y prosiect (Amgueddfa Cymru, PAS Cymru a'r Ffed) yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd sydd â saith aelod, gan sicrhau bod buddiannau, blaenoriaethau a phryderon yr holl bartneriaid yn cael sylw. Yn ogystal, cyflwynodd y Prosiect ddau adroddiad chwemisol i Gronfa Dreftadaeth y Loteri ar y cynnydd a wnaed, a meithrin cysylltiadau personol da gyda staff perthnasol yn HLF Cymru a HLF UK.

Dechreuwyd caffael eitemau o dreftadaeth gludadwy (arteffactau archaeolegol) gan ddefnyddio arian grant ym mis Gorffennaf, ar ôl gwneud trefniadau i amgueddfeydd sy'n dymuno caffael gytuno i'r amodau safonol ar gyfer derbyn grantiau gan yr HLF. Erbyn diwedd 2015, roedd 14 caffaeliad (12 eitem neu grŵp o drysor a dwy eitem nad oeddent yn drysor) wedi'u gwneud trwy'r prosiect, gyda chyfanswm o £15,281 mewn grantiau. Roedd 14 o ddarganfyddiadau eraill oedd yn drysor a dau gasgliad o arteffactau nad oedd yn drysor yn mynd trwy'r broses o gael eu caffael â grantiau gan amgueddfeydd ledled Cymru, gan sicrhau bod y prosiect yn cael dechrau da tuag at y nodau a bennwyd ar gyfer casglu dros bum mlynedd.

Darganfyddiadau allweddol a gafodd eu caffael yn 2015

Dyma rai o'r darganfyddiadau arwyddocaol a gafodd eu caffael ar gyfer casgliadau cyhoeddus sy'n cael eu cadw mewn amgueddfeydd:-

- Darganfuwyd grŵp o ddarnau arian bath ger yr Wyddgrug, Sir y Fflint. Roedd y darnau wedi'u gwneud o arian ac yn dyddio o'r ail ganrif ar bymtheg. Cafodd y grŵp ei gaffael ar gyfer Gwasanaeth Amgueddfeydd Cyngor Sir y Fflint.

- Cafodd celc o'r Oes Efydd, yn cynnwys modrwy wallt aur fylchgron wedi'i haddurno, a darnau o ingotau copr, o Gymuned Cwm Cadnant, Ynys Môn, ei gaffael ar gyfer Oriel Ynys Môn.
- Llwyddodd Amgueddfa Cymru i gaffael celc canoloesol o ddarnau arian wedi'u gwneud o aur ac arian o Gymuned Wenfô, Bro Morgannwg.
- Cafodd modrwy alar aur o'r ail ganrif ar bymtheg, a ganfuwyd yng Nghymuned Pennard, Abertawe (Gŵyr), ei chaffael ar gyfer casgliadau Amgueddfa Abertawe.
- Ymhlith yr eitemau nad oedd yn drysor a gafodd eu caffael roedd dolen addurnedig tancard o'r Oes Haearn a ddaeth o Gymuned Pentyrch, Caerdydd a gard addurnedig carn cleddyf o'r Oes Haearn a ddaeth o Gymuned Penllyn, Bro Morgannwg, y ddau wedi'u haddurno â phatrymau celfyddyd Geltaidd ac wedi'u caffael ar gyfer y Casgliadau Cenedlaethol.

Archwilio safleoedd gyda chymorth Darganfyddwyr a Pherchnogion Tir

Yn ystod 2015, archwiliwyd tri safle archaeolegol lle roedd pedwar celc o'r Oes Efydd newydd eu darganfod. Roedd modd gwneud hyn gyda swm bychan o arian a ddarparwyd gan brosiect Hel Trysor; Hel Straeon. Cafwyd cymorth y darganfyddwyr a chefnogaeth y crwneriaid a pherchnogion y tir i wneud yr archwiliadau hyn, gan gyfrannu at yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r crwneriaid am y darganfyddiadau. Y nodau oedd cadarnhau ac archwilio'r union fannau lle canfuwyd yr eitemau, cynnal archwiliad â llaw mewn manau oedd wedi'u harchwilio â datgelydd metel yn ddiweddar, gweld yn iawn sut y claddwyd y celciau, a gweld a oedd trysor cysylltiedig yn dal yn y ddaear. Roedd cyfle i'r darganfyddwyr ddisgrifio a chadarnhau eu hadroddiadau am amgylchiadau'r darganfod, gan nodi'r cysylltiad rhwng eu disgrifiadau a'r amgylchiadau ar y ddaear. Yn ogystal, cawsant gyfle i gymryd rhan mewn archwiliad archaeolegol, gan weldsut y gall tystiolaeth archaeolegol helpu i

ddatgelu straeon hynod ddifyr am eitemau hynafol a phobl o'r gorffennol. Cofnodwyd y dystiolaeth a welwyd gyda ffotograffau a lluniadau ac mewn ysgrifen fel y gellir paratoi adroddiadau a'u cyhoeddi yn y dyfodol. Ffotograffwyd y dirwedd anodweddion o'r manau lle canfuwyd y celciau hefyd.

Ym mis Ebrill 2015, cynhaliwyd archwiliad archaeolegol o'r man lle canfuwyd celc o'r Oes Efydd Ddiweddar yng Nghymuned Grysmwnt, Sir Fynwy (Achos Trysor 15.07), gyda chymorth y darganfyddwyr, Nick a James Mensikov a'r Dr Jerry Davies. Daeth y darganfyddwyr o hyd i gelc o chwe bwyell efydd socedog, pen picell efydd a darn o gleddyf efydd, yn ystod rali defnyddwyr datgelyddion metel a drefnwyd ar y tir rai dyddiau cyn hynny. Gan fod y darganfyddwyr wedi ymddwyn yn gyfrifol, gadawyd 'signalau' eraill o arteffactau efydd yn y ddaear a gofynnwyd i archaeolegwyr yr Amgueddfa Genedlaethol archwilio'r man darganfod wedyn. Cafwyd cymorth arbenigol ychwanegol gan Ian Dennis (darlithydd yn Adran Archaeoleg Prifysgol Caerdydd) a Rachael Rogers (Curadur Amgueddfa'r Fenni) fel rhan o'r tîm. Cloddiwyd pwlw prawf bychan â llaw ger y man darganfod ac roedd trefn dyddodi'r pridd a'r nodweddion a ddatgelwyd yn rhoi rhagor o wybodaeth am ddull y claddu. Datgelwyd pedair bwyell efydd socedog arall, yn dal yn y pridd, gan wneud celc cyfan o ddeuddeg arteffact.

Roedd perchennog y tir, ei deulu a'i ffrindiau yn falch iawn a chawsant eu hysbrydoli gan y ffaith fod offer ac arfau 3,000 o flynyddoedd oed wedi'u darganfod ar eu tir. Roeddent yn ymweld â'r gwaith cloddio'n rheolaidd wrth i ragor o ddarganfyddiadau gael eu gwneud. Caiff rhai o'u teimladau eu cofnodi mewn tystiolaeth lafar ac archif ffotograffig a gyflwynir maes o law yn Amgueddfa'r Fenni, sef yr amgueddfa lle bwriedir dangos y darganfyddiad os datgenir ei fod yn Drysor. Yn ogystal, daeth rhagor o aelodau o'r clwb defnyddwyr datgelyddion metel a oedd yn



Archwilio safle lle canfuwyd clec o'r Oes Efydd gyda'r darganfyddwyr a pherchnogion y tir

cymryd rhan yn y rali i weld y gwaith archaeolegol ar y safle. Gyda chaniatâd y Crwner, cyhoeddwyd erthygl gyda lluniau am yr archwiliad archaeolegol 'darganfod a dilyniant' yng nghylchgrawn *Treasure Hunting* mis Awst 2015. Llwyddodd y darn bach hwn o waith maes i ennyn diddordeb a brwdfrydedd pobl yng ngorffennol archaeolegol eu cymdogaeth ac mae'r dystiolaeth newydd yn helpu archaeolegwyr i adrodd stori gliriach am yr eitemau a ddatgelwyd a'r bobl oedd yn eu defnyddio ac a'u claddodd.

Cynhaliwyd ail archwiliad safle ar 1 Gorffennaf ar fan darganfod celc bychan o'r Oes Efydd Gynnar, a gladdwyd 4,000 o flynyddoedd yn ôl yng Nghymuned Coety Uchaf, Pen-y-bont ar

Ogwr (Achos Trysor 15.12). Gwnaed hyn gyda chymorth y darganfyddwr, Paul Howells, a myfyriwr intern, Julia Köppe, gyda chaniatâd y Crwner a pherchennog y tir. Daeth y darganfyddwr o hyd i fwyell fflat fawr efydd a chŷn bwyell fflat wedi'u claddu gyda'i gilydd a bu'n ddigon cyfrifol i hysbysu'r awdurdodau y gallent fod yn drysor. Yn yr achos hwn, cafodd yr union fan darganfod ei gadarnhau a thynwyd y pridd llac oedd yn llenwi'r twll datgelu a gloddiwyd yn ddiweddar, er mwyn gweld y priddoedd a dyfnder y darganfyddiad. Teimlwyd ei bod yn annhebygol y byddai rhagor o gloddio'n esgor ar wybodaeth newydd ac felly ni chymerwyd camau pellach. Fodd bynnag, gwnaed arolwg ffotograffig a chofnod

ysgrifen edig o'r gwaith maes, a fyddai'n ddefnyddiolwrth baratoi adroddiad am y darganfyddiad anghyffredin hwn a'i gyhoeddi yn y dyfodol.


Cynhaliwyd trydydd archwiliad y flwyddyn, yr olaf, ar 2 Hydref mewn man lle darganfuwyd dau gelc o'r Oes Efydd Ddiweddar ar yr un diwrnod yn yr un cae (Achosion Trysor 15.05 ac 15.06). Roedd un celc yn cynnwys wyth bwyell efydd socedog ac roedd y llall yn llai, sef dwy fwyell efydd socedog a phen picell efydd. Gyda chymorth y darganfyddwyr (David Hughes, Lee Doyle, Stan Evans, Liam O'Keefe, David Owen a John Thomas), a chefnogaeth perchennog y tir, llwyddwyd i archwilio lleoliadau bras y ddau gelc yn y cae. Fodd bynnag, ni lwyddodd y darganfyddwyr i ganfod union lleoliadau darganfod y celciau gan fod y tir wedi'i aredig yn ddiweddar. Felly, nid oedd modd datgelu mannau darganfod y celciau a chynnal archwiliadau archaeolegol yno. Nodwyd lleoliadau bras y celciau hyn, a'r dirwedd o'u cwrmpas, a chadarnhawyd adroddiadau'r darganfyddwyr am ddod o hyd i'r arteffactau.

Cynllunio Prosiectau Archaeolegol Cymunedol gyda'r amgueddfeydd sy'n bartneriaid i ni

Cynigiwyd dau Brosiect Archaeolegol Cymunedol peilot yng nghais Hel Trysor; Hel Straeon i Gronfa Dreftadaeth y Loteri am arian, ar gyfer blwyddyn gyntaf rhaglen dair blynedd o brosiectau. Bydd y prosiect cyntaf, o dan arweiniad staff Amgueddfa Abertawe, yn cydweithio â grwpiau cymunedol a chlwb defnyddwyr datgelyddion metel lleol, i archwilio ac i ymateb i arteffactau archaeolegol pwysig a godwyd o Fae Abertawe ac yr hysbyswyd amdanynt o dan PAS Cymru neu'r Ddeddf Trysor. Bydd yr ail, o dan arweiniad staff o Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn cydweithio â grwpiau cymunedol i gael eu hysbrydoli gan gelc o'r canoloesoedd diweddar, a

gyflwynwyd fel trysor yn ddiweddar (Achosion Trysor 12.13, 13.23 ac 14.01). Daethpwyd o hyd i'r celc hwn o ddarnau arian bath wedi'u gwneud o aur ac arian, a modrwy aur, yng nghymuned Bronington, Wrecsam, ac fe'i claddwyd tuag adeg Rhyfeloedd y Rhosynnau.

Gan ddilyn amserlen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect, roedd 2015 yn flwyddyn gyflwyno, pryd y gwnaed rhagor o waith i benderfynu ar gynnwys a dull gweithredu'r Prosiectau Archaeolegol Cymunedol hyn cyn eu cychwyn yn ystod 2016-17. Cyfarfu Bwrdd Prosiect Hel Trysor i drafod a chytuno ar drefniadau ar gyfer derbyn ceisiadau o dan y prosiectau gan yr amgueddfeydd sy'n bartneriaid i ni, trefniadau i gynnal arolygon gwerthuso gwaelodlin, trefniadau ar gyfer dogfennau'r grantiau, ac i bennu cerrig milltir ar gyfer gweithredu'r prosiectau. Yn ogystal, cynhaliodd Rheolwyr y Prosiectau nifer o gyfarfodydd cadarnhaol gyda staff yn Amgueddfeydd Abertawe a Wrecsam i drafod y cynnwys, y dulliau gweithredu, ffyrdd o gynnwys y cymunedau, ac ymgynghori.



Modrwy o gelc Bronington

Ym mis Gorffennaf, rhoddodd Rheolwyr y Prosiectau a staff Amgueddfa Abertawe gyflwyniad i'r Heritage Detecting Club, Abertawe, gan elwa ar eu brwdfrydedd a'u syniadau ar gyfer cymryd rhan ym mhrosiect Bae Abertawe ar ôl i nifer o aelodau wneud darganfyddiadau arwyddocaol a'u cyflwyno trwy PAS Cymru. Cynigiwyd dau gasgliad preifat o arteffactau o Fae Abertawe, a oedd yn eiddo i Gary May a Peter Jones, fel casgliadau y gallai Amgueddfa Abertawe eu caffael ac a fyddai'n ganolbwyntiau ar gyfer diddordeb yn y prosiect ac ymateb iddo. Gwnaed trefniadau i gael y rhain wedi'u prisio gan brisiwr annibynnol tua dechrau 2016, gyda'r nod o'u prynu gan ddefnyddio arian grant Hel Trysor. Cynhaliwyd ail ddigwyddiad rhagarweiniol ym mis Tachwedd. Daeth aelodau o Glwb Archaeolegwyr Ifanc (YAC) Abertawe a defnyddwyr datgelyddion metal yno a chafodd ei redeg gan staff Amgueddfa Abertawe, Cydlynwyr YAC, Rheolwyr y Prosiect a Paul Huckfield o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Morgannwg-Gwent.

Roedd yr ymateb a gafwyd gan y plant a'u rhieni yn y digwyddiad hwn ac i'r prosiectyn gadarnhaol iawn. Awygrymwyd datblygiadau posibl fel rhan o'r Prosiect Archaeoleg Cymunedol.



Darn arian o gelc Bronington



Darnau arian o gelc Bronington

Yn ystod y flwyddyn, dechreuwyd cynllunio ar gyfer Prosiect Archaeoleg Cymunedol o dan arweiniad Amgueddfa ac Archifdy Bwrdeistref Sirol Wrecsam, yn gysylltiedig â'r ffaith fod celc yn cynnwys darnau arian bath a modrwy Bronington o'r canoloesoedd diweddar wedi'i ddarganfod a'i gaffael. Fodd bynnag, gan fod y broses o brisio'r trysor, cyn caffael y celc, wedi cymryd cryn amser, bu'n rhaid gohirio dyddiad dechrau'r prosiect. Erbyn hyn, credir ei fod yn debygol o ddechrau tua chanol 2016 gan roi rhagor o amser i staff Amgueddfa Wrecsam i ddatblygu cynllun y prosiect ac ymgynghori gyda grwpiau cymunedol o gymunedau Wrecsam a Bronington a fydd yn cymryd rhan. Disgwylir y bydd y prosiect hwn yn cysylltu'r celc a ddarganfuwyd a'r gwaith cloddio archaeolegol a'r gwelliannau a wnaed i'r gwaith dehongli yng Nghastell Holt gerllaw.

Nodau Allweddol y Prosiect ar gyfer 2016

Dyma nodau allweddol Prosiect *Hel Trysor; Hel Straeon yn 2016:-*

- penodi Swyddog Prosiect rhan amser i helpu'r tîm i redeg prosiect Hel Trysor rhwng 2016 a 2019.
- parhau i gaffael arteffactau archaeolegol (boed yn drysor neu beidio) y gwyddom o ble y maent yn dod yng Nghymru, ar gyfer casgliadau amgueddfeydd cyhoeddus achrededig (lleol a chenedlaethol) ledled Cymru.
- ailddatblygu gwefan PAS Cymru, i fod yn ganolbwynt ar gyfer dathlu darganfyddiadau o Gymru – trysor neu beidio. Bydd hon yn ffynhonnell gydnabyddedig ar gyfer newyddion am ddarganfyddiadau a wnaed yn ddiweddar, a bydd yn casglu ymatebion cymunedol a chreadigol i dreftadaeth gludadwy yng Nghymru.
- cychwyn y ddau Brosiect Archaeoleg Gymunedol cyntaf gydag amgueddfeydd lleol Abertawe a Wrecsam sy'n bartneriaid i ni, gan weithio gyda chymunedau, grwpiau a chynulleidfaoedd lleol a dargedir. Yn ogystal, gwahoddir ceisiadau am ail gylch o ddau Brosiect Archaeolegol Cymunedol, i'w rhedeg yn 2017-18, gan gymryd ysbrydoliaeth o ddarganfyddiadau treftadaeth gludadwy arwyddocaol a wnaed gerllaw.
- cynnal dyddiau Rhwydweithio Casgliadau ar gyfer staff amgueddfeydd a threftadaeth ledled Cymru, er mwyn cwmparu a thrafod mannau casglu y rhoddir blaenoriaeth iddynt, rhannu gwybodaeth a sgiliau, a datblygu casgliadau gan ddilyn agenda Casgliadau Cenedlaethol ar Wasgar.
- hyrwyddo pwysigrwydd treftadaeth gludadwy fregus Cymru a'r casgliadau archaeolegol a gedwir mewn amgueddfeydd ledled Cymru, gyda chyrff ariannu, rhanddeiliaid ac yn llygad y cyhoedd, trwy sicrhau sylw ar y cyfryngau i ddarganfyddiadau a phrosiectau newydd perthnasol.

Atodiad: cysylltwyr, personél ac arbenigwyr

Cysylltwyr ar gyfer hysbysu
PAS Cymru am ddarganfyddiadau

Cydlynnydd PAS Cymru:
Mark Lodwick
Adran Hanes ac Archaeoleg,
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NP
Ebst: mark.lodwick@amgueddfacymru.ac.uk
Ffôn: (029) 2057 3226

Ymddiriedolaethau Archaeolegol Cymru:

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Clwyd-Powys,
41 Broad Street,
Y Trallwng,
Powys SY21 7RR,
Ffôn: 01938 553670
Ebst: her@cpat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed,
Neuadd y Sir,
8 Stryd Caerfyrddin,
Llandeilo,
Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF
Ffôn: 01558 823121 / 823131
Ebst: info@dyfedarchaeology.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol
Morgannwg-Gwent Cyf,
Heathfield House,
Heathfield,
Abertawe SA1 6EL
Ffôn: 01792 655208
Ebst: enquiries@ggat.org.uk neu her@ggat.org.uk

Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd,
Craig Beuno,
Ffordd Garth,
Bangor LL57 2RT
Ffôn: 01248 352535
Ebst: her@heneb.co.uk neu gat@heneb.co.uk

Swyddogion Cyswilt Darganfyddiadau mewn rhanbarthau gerllaw

Vanessa Oakden
Finds Liaison Officer - Cheshire, Greater Manchester & Merseyside
Museum of Liverpool, Department of Archaeology, Pier Head, Liverpool Waterfront, Liverpool Merseyside L3 1DG
Ffôn: 151 4784259
Ebost: Vanessa.oakden@liverpoolmuseums.org.uk

Kurt Adams
Finds Liaison Officer - Gloucestershire & Avon
Bristol City Museum, Queens Road, Bristol
Queens Road Bristol Gloucestershire BS8 1RL
Ffôn: 0117 922 2613
Ebost: kurt.adams@bristol.gov.uk

Peter Reavill
Finds Liaison Officer - Herefordshire & Shropshire
Museum Resource Centre, 7-9 Parkway
Ludlow Shropshire SY8 2PG
Ffôn: 01743 254748
Ebost: peter.reavill@shropshire.gov.uk

Hysbysu am Drysor yng Nghymru

Ebost: Treasure@museumwales.ac.uk;
Adam.Gwilt@amgueddfacymru.ac.uk;
Edward.Besly@amgueddfacymru.ac.uk

Grŵp Llywio PAS Cymru

Dr Mark Redknap (Amgueddfa Cymru)
Dr Michael Lewis (PAS BM)
Lesley-Ann Kerr (MALD)
Dr Kate Roberts (Cadw)
Adam Gwilt (Amgueddfa Cymru)
Edward Besly (Amgueddfa Cymru)
Mark Lodwick (PAS Cymru)

Bwrdd Prosiect Hel Trysor; Hel Straeon

Dr Mark Redknap (Amgueddfa Cymru, Cadeirydd)
Rachael Rogers (Y Ffed.)
Chris Delaney (Y Ffed.)
Mark Lodwick (PAS Cymru)
Dr Jonathan Berry (Cadw)
Adam Gwilt (Amgueddfa Cymru)
Owain Rhys (Amgueddfa Cymru)
Dr Rhianydd Biebrach (Swyddog Prosiect)

Arbenigedd a ddarperir gan Amgueddfa Cymru ar gyfer adroddiadau am drysor i grwneriaid

Dr Mark Redknap (Adroddiadau Canoloesol Cynnar, Canoloesol, ac Ôl-ganoloesol)
Edward Besly (Adroddiadau Niwmismatig)
Adam Gwilt (Adroddiadau o'r Cyfnodau Cynhanesyddol Diweddarach)
Evan Chapman (Adroddiadau Rhufeinig)
Sian Iles (Adroddiadau Canoloesol ac Ol-ganoloesol)
Robin Maggs (Ffotograffiaeth)
Mary Davis (Gwasanaethau Dadansoddol)
Louise Mumford (Cadwraeth)
Tony Daly (Darlunio)